

Cynllun Gwella Cyngor Dinas Casnewydd 2016/18 (blwyddyn 2)

Rhagarweiniad

Diben y Cynllun Gwella yw galluogi'r awdurdod i roi tystiolaeth ei fod wedi cwblhau ei ddyletswydd i wneud trefniadau ar gyfer sicrhau gwelliant parhaus. (Mesur Llywodraeth Leol 2009) Er mwyn dangos yn glir bod y cyngor yn cyflawni'r ddyletswydd hon, nodwyd wyth maes gwaith â blaenoriaeth arwahanol lle dylid dangos gwelliant mesuradwy yn ystod 2016-18.

Mae'r Cynllun Gwella presennol yn cwmpasu'r cyfnod 2016-18 a thra erys yr amcanion a gymeradwywyd gan y Cabinet ym mis Ebrill 2016 yr un fath, adolygwyd cynnwys pob amcan er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn gyfredol ar gyfer 2017/18.

Dewiswyd yr wyth Amcan Gwella (sy'n ymwneud yn uniongyrchol â blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol) o ganlyniad i ymatebion i ymgynghoriad ac maent yn adlewyrchu'r wyth thema a gafodd y nifer fwyaf o bleidleisiau yn yr ymgynghoriad.

Caiff mesurau perfformiad eu cynnwys yn y Cynllun Gwella er mwyn helpu i fonitro llwyddiant y gweithgareddau, ac adroddir ar rai o'r mesurau a ddefnyddiwyd yma yn genedlaethol hefyd. Dirymwyd y Dangosyddion Strategol Cenedlaethol (DSC) ym mis Gorffennaf 2016 er mwyn dileu'r baich presennol o gydymffurfio ar adeg pan mae adnoddau yn fwy cyfyngedig a bod angen eu defnyddio'n fwy effeithlon er mwyn darparu gwasanaethau Llywodraeth Leol. Fodd bynnag, mae llawer ohonynt erbyn hyn wedi'u cynnwys yn y set ddata Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus (MAC) a gaiff ei chasglu gan Uned Ddata Cymru i gymharu perfformiad Awdurdodau Lleol yng Nghymru, yna cyhoeddir y gymhariaeth hon. Caiff newidiadau i fesurau eu hadlewyrchu yn yr amcanion isod.

Golyga'r rhaglen Diwygio Llywodraeth Leol a chyflwyno Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, bod fframweithiau perfformiad awdurdodau lleol yn newid er mwyn galluogi awdurdodau lleol i ganolbwyntio ar weithio yn fwy effeithlon i gyflawni nodau llesiant.

Ystyriwyd yr wyth Amcan Gwella gan gyfarfodydd Craffu a gynhaliwyd ym mis Chwefror er mwyn i aelodau gyfrannu at Gynllun Gwella 2016-18, ac ystyriwyd adborth o'r cyfarfodydd Craffu wrth lunio'r cynllun llawn. Roedd yr amcanion a adolygwyd yn ategu'r adolygiadau o gynlluniau gwasanaeth canol blwyddyn a ystyriwyd gan y Pwyllgorau Craffu ym mis Tachwedd.

Crynodeb o Amcanion y Cynllun Gwella

Mae'r wyth Amcan Gwella a ddewiswyd ar gyfer 17/18 wedi'u grwpio o dan themâu'r Cynllun Corfforaethol:

Dinas Ofalgar

- *Helpu pobl hŷn i fyw'n fwy Annibynnol*
- *Sicrhau bod pobl yn cael y gwasanaethau cymdeithasol cywir i ddiwallu eu hanghenion*

Dinas Decach

- *Sicrhau bod modd i bobl gael gafael ar lety addas*

Dinas sy'n Dysgu ac yn Gweithio

- *Adfywio a Datblygu'r Ddinas*
- *Cynorthwyo pobl ifanc i gael addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant*
- *Sicrhau'r deilliannau addysgol gorau i blant*

Dinas sy'n Fwy Gwyrdd ac Iach

- *Cynyddu cyfraddau ailgylchu*

Dinas sy'n Fwy Diogel

- *Atal Troseddu ac Aildroseddu ymysg pobl ifanc*

Ymgynghori

Dechreuodd ein hymgynghoriad ynghylch Cynllun Gwella 2016-18 ar 17 Hydref. gofynnwyd i gyfranogwyr nodi eu tair prif flaenoriaeth o restr o 12.

Defnyddiwyd sawl ffordd o ymgysylltu â'r cyhoedd, staff ac aelodau. Cynhaliwyd ymgynghoriadau cyhoeddus wyneb yn wyneb yng Nghanolfan Casnewydd, ym Mhentref Chwaraeon Rhyngwladol Casnewydd, yr Orsaf Wybodaeth, Theatr Glan yr Afon, y Llyfrgell Ganolog a Llyfrgell Ringland. Anfonwyd arolwg o'r panel dinasyddion yn electronig at aelodau'r panel a chynhaliwyd arolwg gwe i aelodau'r cyhoedd ar dudalennau gwe www.newport.gov.uk. Cyhoeddwyd yr arolwg ar Facebook a Twitter.

At hynny, cynhaliodd y Tîm Perfformiad rai ymarferion 'pleidleisio a dotiau' wyneb yn wyneb gyda staff yn y Ganolfan Ddinesig a'r Orsaf Wybodaeth. Aeth y Tîm i gyfarfod â'r Comisiwn Tegwch hefyd lle y cyflwynwyd y prif adroddiad i'w ystyried. Mae pob Cynghorydd hefyd wedi cael gwahoddiad i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad drwy gwblhau holiadur papur. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 18 Rhagfyr.

Canlyniadau'r Ymgynghoriad

Dangosir canlyniadau'r ymgynghoriadau â'r Aelodau Etholedig, staff a'r cyhoedd yn y tabl isod. Roedd gan bob cyfranogwr dair pleidlais. Cymerodd mwy na 625 o unigolion ran yn yr ymgynghoriad hwn, sef cynnydd o 18% o gymharu â nifer yr ymatebion a gafwyd i'r ymarfer hwn y llynedd. Dylid nodi y gellir ystyried bod yr ymgynghoriad hwn yn ystadegol arwyddocaol o boblogaeth Casnewydd (95% yn hyderus mai 5% yw uchafswm y gyfradd wallau).

Cynigiwyd tair 'pleidlais' i bob un a gymerodd ran yn yr ymgynghoriad:

Blaenoriaeth	Ymatebion
Cynorthwyo pobl ifanc i gael addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (Dinas sy'n dysgu ac yn gweithio) 1af	297
Adfywio a datblygu'r ddinas (Dinas sy'n dysgu ac yn gweithio) 2il	239
Helpu pobl hŷn i Fyw'n Fwy Annibynnol (Dinas ofalgar) 3ydd	213
Sicrhau bod pobl yn cael y gwasanaethau cymdeithasol cywir i ddiwallu eu hanghenion (Dinas ofalgar) 4ydd	210
Gwella deilliannau addysgol plant (Dinas sy'n dysgu ac yn gweithio) 5ed	184
Sicrhau bod modd i bobl gael gafael ar lety addas (Dinas decach) 6ed	166
Atal troseddu ac aildroseddu ymysg plant (Dinas sy'n fwy diogel) 7fed	142
Cynyddu cyfraddau ailgylchu (Dinas wyrddach ac iachach) 8fed	142
Cynorthwyo pobl hŷn sy'n gadael yr ysbyty (Dinas ofalgar) 9fed	136
Hyrwyddo'r Gymraeg (Dinas decach) 10fed	64
Diogelwch bwyd o fewn iechyd yr amgylchedd (Dinas wyrddach ac iachach) 11eg	50
Darparu band eang cyflymach i fusnesau a chartrefi (Dinas sy'n dysgu ac yn gweithio) 12fed	35

Ymateb gan y Comisiwn Tegwch

Ar 28 Medi 2015 ymgynghorwyd â'r Comisiwn Tegwch ar y blaenoriaethau y gellid eu cynnwys yng Nghynllun Gwella 16/17. Gellir gweld yr ymateb a gafwyd gan y Comisiwn drwy glicio ar y ddolen gyswllt isod: <https://democracy.newport.gov.uk/documents/s3948/IP%20report%20and%20cover%20sheet%20for%20cabinet%2023DEC%20v1.pdf>

Blaenoriaethau ar gyfer Gwella a Ddewiswyd

Yng nghyfarfod y Cabinet ar 11 Ionawr 2016, cynigiwyd set o opsiynau i'r aelodau er mwyn iddynt ddewis Blaenoriaethau ar gyfer Gwella ar gyfer 16/17. Dewisodd y Cabinet opsiwn un, a arweiniodd at yr wyth blaenoriaeth ganlynol yn cael eu cynnwys yn y Cynllun Gwella ar gyfer 16/17

Mae'r opsiwn a ddewiswyd gan y Cabinet yn adlewyrchu'r wyth thema a gafodd y nifer fwyaf o bleidleisiau yn yr ymgynghoriad. Mae'r blaenoriaethau fwy neu lai yr un peth â'r blaenoriaethau ar gyfer 2015/16 gydag ychydig o newidiadau; roedd y blaenoriaethau ar gyfer Cynllun Gwella 2015/16 fel a ganlyn:

1. Cynorthwyo Pobl Hŷn sy'n gadael yr ysbyty
2. Gwella gwasanaethau gofal a chymorth i oedolion
3. Datblygu ac Adfywio'r Ddinas
4. Cynorthwyo pobl ifanc i gael addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant
5. Sicrhau'r canlyniadau addysgol gorau i blant
6. Helpu plant i gael dechrau da mewn bywyd
7. Cynyddu cyfraddau ailgylchu
8. Gwella canlyniadau o ran cyfiawnder ieuenctid

Amcan Gwella I

Helpu Pobl Hŷn i Fyw'n Fwy Annibynnol

Cysylltiad â'r Cynllun Corfforaethol: Dinas Ofalgar

Cysylltiad â'r Nodau Llesiant: Cymru iachach, Cymru sy'n fwy cyfartal, Cymru o gymunedau cydlynus

Aelodau Arweiniol y Cabinet: Aelod y Cabinet dros Ofal Cymdeithasol i Oedolion a Thai

Swyddog Arweiniol: Pennaeth Gwasanaethau i Oedolion a Chymunedau

Beth yw'r Amcan Gwella?

Fel rhan o Strategaeth Cymru ar gyfer Gwasanaethau Cychwynnol a Chymuned, 'Gosod y Cyfeiriad', a gyhoeddwyd yn 2009, mae Byrddau Iechyd ledled Cymru wedi sefydlu fframwaith ar gyfer cyflenwi gwasanaethau cychwynnol a chymuned a elwir yn Glystyrau Meddygon Teulu. Ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan mae'r cysyniad wedi'i ehangu, gan gydnabod y cyfraniad a wneir gan asiantaethau partner, a gelwir y clystyrau yn Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth (RhGCau). Mae'r RhGC yn rhwydwaith cydweithredol sy'n cynnwys pob darparwr Gofal Sylfaenol, iechyd a gofal cymdeithasol cymunedol sy'n gweithredu o fewn ffiniau'r ôl troed daearyddol.

Mae tri RhGC wedi'u sefydlu ledled Casnewydd sy'n cwmpasu Gorllewin, Dwyrain a Gogledd y ddinas, gyda ffiniau sy'n cyd-fynd, fwy neu lai, â ffiniau'r Tîm o amgylch y Clwstwr, ac maent wedi mabwysiadu nifer o flaenoriaethau i wella iechyd a lles y boblogaeth, y mae llawer ohonynt yn cyfrannu at y gwaith sy'n cael ei wneud o dan thema Iechyd a Lles i gyflawni Cynllun Integredig Sengl Casnewydd.

Bu Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion Cyngor Dinas Casnewydd yn gweithio gyda chydweithwyr o Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan i ddatblygu llwybr integredig ar gyfer pobl hŷn sy'n ceisio nodi'r rhai sydd fwyaf tebygol o fod angen gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn y dyfodol. Mae hyn wedi cynnwys gweithio gyda meddygon teulu a'r sector gwirfoddol i roi cynlluniau unigolion a elwir yn "Cynlluniau Cadw'n Iach" ar waith er mwyn cynnal pobl yn eu cartrefi a'u helpu i gymryd cyfrifoldeb am eu lles eu hunain a defnyddio cymorth yn y gymuned a defnyddio gwasanaethau ataliol megis cyfeillio.

Pam rydym wedi dewis yr Amcan Gwella hwn? / Pam mae'n bwysig?

- Caiff nifer y bobl hŷn sy'n cael cyngor a chymorth amserol ei chynnyddu drwy gyflwyno'r llwybr integredig i bobl hŷn a bydd gan garfan o bobl hŷn gynllun "Cadw'n lach".
- Parhau i gynyddu canran y bobl sy'n cael ymyriad eiddilwch/ailalluogi, sydd â phegyn gofal llai o faint neu nad oes ganddynt becyn gofal parhaus, hynny yw; maent wedi'u hailalluogi'n llawn i fyw'n annibynnol.
- Bydd yr amcan hwn yn cyfrannu at y nodau llesiant, yn enwedig 'Cymru iachach', 'Cymru sy'n fwy cyfartal' a 'Cymru o gymunedau cydlynus'.

Beth rydym wedi'i wneud hyd yn hyn?

Mae'r RhGCau yng Nghasnewydd wedi gwneud cynnydd dros y ddwy flynedd ddiwethaf drwy ddatblygu cynlluniau lleol sy'n seiliedig ar fanylion anghenion iechyd a gofal cymdeithasol y RhGCau unigol. Yng Nghasnewydd maent wedi arwain at sefydlu Llwybr Mesurau Atal i Bobl Hŷn a gafodd ei dreialu mewn un practis meddyg teulu a chaiff ei gyflwyno ledled y Ddinas dros y 12 mis diwethaf. Ar y cyd ag Age Cymru datblygwyd rôl Hwylusydd Gofal sy'n gweithio gyda grŵp penodol o bobl hŷn sydd ag anghenion iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn eu helpu i reoli eu sefyllfa yn fwy effeithiol drwy ddefnyddio "Cynlluniau Cadw'n lach".

Mae effeithiolrwydd yr ymyriadau hyn yn cael eu gwerthuso gan ddefnyddio data perfformiad allweddol gan gynnwys targed i leihau nifer y cysylltiadau â Meddygon Teulu a Nyrsys ac ymweliadau nas cynlluniwyd ag Aadrannau Damweiniau ac Achosion Brys. At hynny rydym yn cofnodi barn pobl hŷn ar effeithiolrwydd y gwasanaeth ac rydym hefyd yn cofnodi manteision ychwanegol megis cynyddu adnoddau ariannol o ganlyniad i gyngor ar fudd-daliadau lles.

At hynny, mae timau gwasanaethau cymdeithasol oedolion yn trafod y strwythurau a'r cyfluniad fydd eu hangen yn y dyfodol er mwyn iddynt gyflawni eu cyfrifoldebau o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Byddai symud tuag at eu cysoni ag olion troed RhGCau yn ein galluogi i fanteisio ar gyfleoedd pellach i gydleoli ac integreiddio prosesau darparu gwasanaethau wrth iddynt godi

Beth rydym yn mynd i'w wneud?

Beth rydym yn mynd i'w wneud eleni?	Pa wahaniaeth y bydd yn ei wneud?
1.1 Darparu proses asesu integredig ar gyfer pobl hŷn sy'n seiliedig ar y modelau a ddatblygwyd i ategu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.	Bydd hyn yn cyflawni ein cyfrifoldebau o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol (2014) sydd i'w gweithredu yn 2016 ac yn darparu dull gweithredu integredig er budd pobl hŷn.
1.2 Cyflwyno'r llwybr integredig i bobl hŷn y mae angen gofal a chymorth arnynt yn y gymuned ledled y RhGCau yng Nghasnewydd.	Cynyddu nifer y bobl hŷn sydd â chynllun Cadw'n lach er mwyn eu helpu i fyw'n annibynnol a hyrwyddo eu lles.
1.3 Ailstrwythuro timau gweithredol gwasanaethau cymdeithasol oedolion yn unol ag olion troed y RhGCau.	Bydd gwella strwythur timau yn gwella trefniadau cysylltu ar gyfer pobl os bydd eu hanghenion yn newid, h.y. gwybod pa dîm sy'n amlwg gyfrifol am eu gwaith achos.

Sut y byddwn yn gwybod?

Gwnaed nifer o newidiadau i'r dangosyddion perfformiad y mae'n ofynnol i ni gyflwyno adroddiadau arnynt dros y cyfnod a gwmpesir gan y cynllun gwella hwn gan gynnwys proses casglu data Dangosyddion Strategol Cenedlaethol a hefyd y Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol er mwyn helpu i roi Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) ar waith. Golyga hyn bod rhai o'r dangosyddion perfformiad a'r targedau a nodir isod wedi'u hadolygu er mwyn adlewyrchu hyn.

Mesur		Perfformiad 15/16	Targed ar gyfer 16/17	Perfformiad presennol (C2 2016/17)	Newidiadau i'r Targed
Faint rydym wedi'i wneud?					
Ia Darparu pecynnau Teleofal		847	1000	1,014	
Ib Aseiad therapi galwedigaethol ac Adolygiadau		84%	85%	91.6%	
Pa mor dda y gwnaethom ni?					
Ic Canran yr oedolion a gwblhaodd gyfnod o ailalluogi	a) ac sydd â phe cyn gofal a chymorth llai chwe mis yn ddiweddarach	DD/G	Mesur Newydd	Mesur blynyddol - nid oes data ar gael eto	a) 65%
	b) nad oes ganddynt unrhyw becyn gofal a chymorth chwe mis yn ddiweddarach	D/G	40%	Mesur blynyddol - nid oes data ar gael eto	b) 40% ffigyrau blynyddol i'w nodi ar ddiwedd y flwyddyn
Oes unrhyw un wedi elwa?					
Ich Canran yr oedolion a gafodd gyngor a chymorth gan y gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth ac nad ydynt wedi cysylltu â'r gwasanaeth eto (Dros 75)		DD/G	38%	Mesur blynyddol - nid oes data ar gael eto	50% target wedi'i adolygu a'i gynyddu

Partneriaeth a Chydweithredu: Gyda phwy y mae angen i ni weithio?

Bwriedir cynnal digwyddiadau ymgysylltu â rhanddeiliaid a elwir yn weithdai Llesiant ym mis Mawrth a mis Ebrill gyda phobl a gofawyr, sefydliadau gwirfoddol a gweithwyr proffesiynol er mwyn eu cyflwyno i lwybr y bobl hŷn a'r Cynllun Cadw'n Iach.

Pa risgiau sydd angen i ni eu rheoli a'u hatal?

Risg	Gweithgarwch Lliniaru	Gradd y Risg Mawrth 2016	Gradd Presennol y Risg
Ariennir y gwaith o sefydlu'r RhGCau drwy arian wedi'u warantu yn y dyfodol, bydd angen ystyried trefniadau mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan	Gweithio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan i nodi ffrydiau ariannu amgen er mwyn helpu i gyflwyno Llwybr y Bobl Hŷn.	Canolig	Canolig
Effaith Adnoddau Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion	Er mwyn sicrhau bod y broses o gyflwyno Llwybr y Bobl Hŷn yn cyd-fynd â chanlyniadau a chynlluniau strategol Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion.	Isel	Isel

A oes cyllideb ar gael i gyflwyno gwelliannau?

Cam Gweithredu	Cyllid a nodwyd i gyflwyno gwelliannau (£'000)	Sylwadau Ariannol Ychwanegol
1.1 Darparu proses asesu integredig ar gyfer pobl hŷn yn 2015/16 sy'n seiliedig ar y modelau a ddatblygwyd i ategu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.	£1,976	Mae'r cyllidebau sydd ar gael i gyflawni'r amcan gwella hwn wedi'u nodi o nifer o feysydd sy'n ymwneud â'r broses asesu.
1.2 Cyflwyno'r llwybr integredig i bobl hŷn y mae angen gofal a chymorth arnynt yn y gymuned ledled y RhGCau yng Nghasnewydd.	£2,248	Mae'r gyllideb hon yn cynnwys gwasanaethau Eiddilwch, gwasanaethau teleofal, cyllideb cyfarpar integredig a £550,000 o arian grant allanol o'r Gronfa Gofal Canolraddol. Rydym yn aros am gadarnhad ynghylch faint o arian a fydd ar gael o'r Gronfa Gofal Canolraddol ar gyfer 2017/18.
1.3 Ailstrwythuro timau gweithredol gwasanaethau cymdeithasol oedolion yn unol ag olion troed y RhGCau.	£1,378	Mae hyn yn cynnwys ailstrwythuro cyllidebau timau yn unol ag olion troed RhGC.

Amcan Gwella 2

Sicrhau bod pobl yn cael y gwasanaethau cymdeithasol cywir i ddiwallu eu hanghenion

Cysylltiad â'r Cynllun Corfforaethol: Dinas Ofalgar

Cysylltiad â'r Nodau Llesiant: Cymru iachach, Cymru sy'n fwy cyfartal, Cymru o gymunedau cydlynus

Aelodau Arweiniol y Cabinet: Aelod y Cabinet dros Ofal Cymdeithasol i Oedolion a Thai

Swyddog Arweiniol: Pennaeth Gwasanaethau i Oedolion a Chymunedau

Beth yw'r Amcan Gwella?

Yn sgil gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant disgwylir i ni weithio mewn partneriaeth â phobl y mae angen cymorth gwasanaethau cymdeithasol arnynt a hefyd bobl sy'n cyflawni rôl ofalu. Byddwn yn helpu pobl i nodi a chyflawni'r canlyniadau y maent am eu cyflawni, lle y bo'n bosibl, gan ddefnyddio eu syniadau a'u dymuniadau gyda phwyslais ar gydgyhyrchu a defnyddio eu syniadau a'u hadnoddau eu hunain. Disgwylir i ni helpu pobl ag anghenion gofal a chymorth i gadw'n ddiogel tra'n eu hannog i fyw'n annibynnol a rheoli eu bywydau eu hunain a'u helpu i gymryd risgiau cadarnhaol drwy ddarparu gwasanaethau gofal a chymorth o ansawdd uchel.

Rydym yn gweithio gyda chydweithwyr i ddatblygu proses asesu integredig ar gyfer pobl hŷn ym mhob rhan o'r sector iechyd a gofal cymdeithasol a byddwn yn gweithio ar broses cymhwysedd i Gymru gyfan ar gyfer y rhai y mae angen gofal a chymorth arnynt. Bydd hefyd angen i ni sicrhau bod pobl yn gallu cael gafael ar y gwasanaethau cywir i ddiwallu eu hanghenion p'un a ydynt yn wasanaethau rydym yn eu comisiynu'n uniongyrchol, gwasanaethau y gallant eu defnyddio yn eu cymunedau lleol neu pan fyddant yn trefnu eu gofal a'u cymorth eu hunain drwy wneud taliad uniongyrchol.

Pam rydym wedi dewis yr Amcan Gwella hwn? / Pam mae'n bwysig?

Bydd datblygu Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol yn fodd i ddangos sut rydym yn cyflawni amcanion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Mae hyn yn cynnwys gwneud yn siŵr bod pobl yn gallu cael gafael ar wybodaeth a chynghor amserol a'u bod yn cael help i ddatblygu eu trefniadau cymorth a gofal gan gynnwys cyd-gynhyrchu. Bydd y Cyngor, drwy'r rôl gomisiynu, yn gyfrifol am sicrhau y gall pobl gael gafael ar y cymorth sydd ei angen arnynt i reoli eu gofal a gwasanaethau o ansawdd uchel, hyd yn oed pan nad yw'r rhain yn cael eu contractio'n uniongyrchol gan y Cyngor.

Bydd Gwasanaethau Atal ac Ymyrryd yn Gynnar yn hanfodol a chânt eu darparu drwy ddull gweithredu integredig gyda'r GIG gan gynnwys datblygu'r Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth a datblygu prosiect Llwybr Integredig Pobl Hŷn.

Mae hefyd angen i ni sicrhau bod staff ac asiantaethau partner megis ein darparwyr a phartneriaid yn y trydydd sector yn deall y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau cymdeithasol a beth fydd eu cyfraniad.

Beth rydym wedi'i wneud hyd yn hyn?

Rydym wedi datblygu llwybr ar gyfer gwasanaethau oedolion i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau cymdeithasol ac wedi dechrau ymgynghori â staff yn y timau gweithredol ynghylch strwythurau'r timau newydd a fydd ar waith erbyn mis Ebrill 2016. Bydd y timau newydd yn seiliedig ar ôl troed daearyddol y RhGCau a fydd yn gwella ein gallu i weithio mewn ffordd integredig gyda chydweithwyr yn y GIG ac yn sicrhau y bydd pobl sydd â chynllun gofal a chymorth yn perthyn i un tîm yn seiliedig ar ble maent yn byw yn hytrach na'r math o gyflwr sydd ganddynt neu wasanaeth sydd ei angen arnynt.

Yn unol â'n cyfrifoldebau i wella'r agwedd ar Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 sy'n ymwneud â chynnig gwybodaeth, cynghor a chymorth, rydym wedi dechrau adolygu'r trefniadau ar gyfer Cyswllt Cyntaf a byddwn yn atgyfnerthu'r profiad y gall pobl ddisgwyl ei gael a'r ystod o wasanaethau rydym yn eu cynnig er mwyn sicrhau mai dim ond y bobl hynny y mae angen iddynt gael eu cyfeirio ymlaen sy'n gwneud hynny. Bydd hyn yn cynnwys adolygu ein trefniadau presennol ar gyfer mynediad at deleofal ac yn gwella effeithlonrwydd ein systemau yn y timau ailalluogi.

Rydym wedi adolygu ein trefniadau gyda'r trydydd sector ar ôl ymgynghori â'r partneriaid yn y sector hwn a phobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau hyn a'u gofalywr ac wedi ailgynllunio ein trefniadau comisiynu. Bydd y model

newydd yn cynnwys datblygu darparwr arweiniol y bydd yn ofynnol iddo sefydlu rhwydwaith cydweithredol gyda darparwyr allweddol eraill.

Beth rydym yn mynd i'w wneud?

Beth rydym yn mynd i'w wneud eleni?	Pa wahaniaeth y bydd yn ei wneud?
2.1 Sefydlu'r llwybr ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol oedolion ym mhob rhan o'r sector iechyd a gofal cymdeithasol yn seiliedig ar ôl troed y RhGCau a sicrhau ein bod wedi cyflunio ein hadnoddau i gyflawni'r Ddeddf newydd hon.	Bydd hyn yn egluro pa swyddogaethau a gwasanaethau fydd eu hangen ar bob cam o'r llwybr.
2.2 Ailstrwythuro timau gweithredol gwasanaethau cymdeithasol oedolion.	Bydd gwella strwythur timau yn gwella trefniadau cysylltu ar gyfer pobl os bydd eu hanghenion yn newid, h.y. gwybod pa dîm sy'n amlwg gyfrifol am eu gwaith achos.
2.3 Datblygu'r adnoddau asesu integredig, gan gynnwys asesiad o ofalwyr a chynllun gofal a chymorth, a'u rhoi ar waith. Datblygu'r defnydd a wneir o dechnoleg symudol i gasglu gwybodaeth asesu a helpu i gydgyhyrchu cynlluniau gofal a chymorth.	Bydd hyn yn cyflawni ein cyfrifoldebau o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol (2014) sydd i'w gweithredu yn 2016
2.4 Adolygu ac ailgomisiynu gwasanaethau yn ôl yr angen er mwyn sicrhau eu bod yn unol â gofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.	Bydd yr adolygiad hwn yn sicrhau bod gan bobl y trefniadau gofal a chymorth cywir sy'n cefnogi ac yn hyrwyddo eu hannibyniaeth.
2.5 Adolygu a datblygu ein systemau a'n prosesau er mwyn sicrhau eu bod yn unol â'r fframwaith canlyniadau cenedlaethol newydd ar gyfer y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, gan gynnwys y gofyniad newydd i gynnal arolygon.	Sicrhau bod ein trefniadau adrodd yn cofnodi'n gywir ein bod yn cofnodi bod gan bobl y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt i gyflawni eu canlyniadau.
2.6 Gofyn i bobl sydd â chynllun gofal a chymorth gwblhau holiadur er mwyn deall y canlynol: - Canran y bobl sy'n dweud: Rwy'n teimlo'n ddiogel Canran y bobl sy'n dweud: Cefais fy nhrin ag urddas a pharch Canran y bobl sy'n dweud: Gallaf wneud y pethau sy'n bwysig i mi	Gweithio gyda phobl sydd â chynllun gofal a chymorth er mwyn sicrhau eu bod yn cael y cymorth a'r gwasanaethau cywir i ddiwallu eu hanghenion.

Sut y byddwn yn gwybod?

Gwnaed nifer o newidiadau i'r dangosyddion perfformiad y mae'n ofynnol i ni gyflwyno adroddiadau arnynt dros y cyfnod a gwmpesir gan y cynllun gwella hwn gan gynnwys proses casglu data Dangosyddion Strategol Cenedlaethol a hefyd y Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol er mwyn helpu i roi Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) ar waith. Golyga hyn bod rhai o'r dangosyddion perfformiad a'r targedau a nodir isod wedi'u hadolygu er mwyn adlewyrchu hyn.

Mesur	Perfformiad 15/16	Targed ar gyfer 16/17	Perfformiad presennol (C2 2016/17)	Newidiadau i'r Targed
Faint rydym wedi'i wneud?				
2a Nifer yr Aseidiadau Integredig a Gwblhawyd fesul mis	Ffigur Blynyddol 542	40 y mis	743	
Pa mor dda y gwnaethom ni?				
2b Cyfradd yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau yn ymwneud â gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth 75 oed neu hŷn.	4.29 fesul 1000	2.04 fesul 1000	1.28 fesul 1000	4.08 fesul 1000
2c Nifer o aseidiadau o angen am gymorth i ofalwyr a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn	Mesur newydd	20 fesul Chwarter	72	
Oes unrhyw un wedi elwa?				
2ch Canran yr ymholiadau amddiffyn oedolion a gwblhawyd o fewn terfynau amser statudol	Mesur newydd	90%	97.9%	

Partneriaeth: Gyda phwy y mae angen i ni weithio?

Mae angen i ni sicrhau bod staff ac asiantaethau partner megis ein darparwyr a phartneriaid yn y trydydd sector yn deall y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau cymdeithasol a beth fydd eu cyfraniad.

Bydd angen i'n timau ddatblygu ein cydberthynas â Rheolwyr y RhGCau a meddygon teulu a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill sy'n gweithio o fewn yr olion troed hyn.

Sicrhau bod pobl rydym yn darparu gofal a chymorth iddynt a'u gofalwyr yn deall y newidiadau sy'n cael eu gwneud drwy gynnal digwyddiadau ymgysylltu ac ymgynghori â hwy yn rheolaidd.

Pa risgiau sydd angen i ni eu rheoli a'u hatal?

Risg	Gweithgarwch Lliniaru	Gradd y Risg Mawrth 2016	Gradd Presennol y Risg
Darparu strwythur gwasanaethau newydd tra'n cynnal y canlyniadau cyflawni a pherfformiad gweithredol.	Rheoli'r defnydd a wneir o staff asiantaeth. Cefnogi staff drwy brosesau rheoli newid.	Canolig	Canolig
Sicrhau ein bod yn helpu i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel drwy ein trefniadau contract.	Parhau i Sicrhau Ansawdd gwasanaethau dan gontract mewn ffordd gynlluniedig.	Isel	Isel

A oes cyllideb ar gael i gyflwyno gwelliannau?

Amcan Gwella	Cyllid a nodwyd i gyflwyno gwelliannau (£'000)	Sylwadau Ariannol Ychwanegol
2.1 Sefydlu'r llwybr ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol oedolion ym mhob rhan o'r sector iechyd a gofal cymdeithasol yn seiliedig ar ôl troed y RhGCau a sicrhau ein bod wedi cyflunio ein hadnoddau i gyflawni'r ddeddf newydd.	£33,790	Defnyddir cyllideb gyfan gwasanaethau cymdeithasol oedolion i ddarparu adnoddau sy'n darparu gofal cymdeithasol i oedolion yn unol â'r ddeddf newydd.
2.2 Ailstrwythuro timau gweithredol gwasanaethau cymdeithasol oedolion.	£2,773	Caiff pob tîm gwaith cymdeithasol oedolion ei adolygu a'i roi yn y strwythur newydd i ddarparu gwasanaethau Cyswllt Cyntaf, Gofal a Reolir, Iechyd Meddwl Integredig a Therapi Galwedigaethol.
2.3 Datblygu'r adnoddau asesu integredig, gan gynnwys asesiad o ofalwyr a chynllun gofal a chymorth, a'u rhoi ar waith. Datblygu'r defnydd a wneir o dechnoleg symudol i gasglu gwybodaeth asesu a helpu i gydgyhyrchu cynlluniau gofal a chymorth.	£2,191	Caiff yr adnodd asesu integredig ei roi ar waith gan dimau gwaith cymdeithasol sy'n gyfrifol am asesiadau. Mae'r gyllideb sydd wedi'i nodi yma ar gyfer y timau a chyllidebau gwaith cymdeithasol sy'n darparu cymorth i ofalwyr.
2.4 Adolygu ac ailgomisiynu gwasanaethau yn ôl yr angen er mwyn sicrhau eu bod yn unol â gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.	£1,548	Cyllideb ar gyfer taliadau contract a thîm o staff sy'n adolygu ac yn comisiynu contractau. Dyma'r ffigur ar ôl didynnu arbedion gwerth £250,000 a nodir yn y Cynllun Refeniw Tymor Canolig 16/17.
2.5 Adolygu a datblygu ein systemau a'n prosesau er mwyn sicrhau eu bod yn unol â'r fframwaith canlyniadau cenedlaethol newydd ar gyfer y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, gan gynnwys y gofyniad newydd i gynnal arolygon.	£204	Cyllideb ar gyfer y tîm gwybodaeth am berfformiad gan gynnwys system SWIFT.

Amcan Gwella 3

Sicrhau bod modd i bobl gael gafael ar lety addas

Cysylltiad â'r Cynllun Corfforaethol: Dinas Decach

Cysylltiad â Nodau Llesiant: Cymru iachach, Cymru sy'n fwy cyfartal, Cymru o gymunedau cydlynus

Aelodau Arweiniol y Cabinet: Aelod y Cabinet dros Adfywio a Buddsoddi

Swyddog Arweiniol: Pennaeth Gwasanaethau Adfywio, Buddsoddi a Thai

Beth yw'r Amcan Gwella?

Y nod yw sicrhau y gall pobl gael gafael ar lety addas. Ar gyfer y rhan fwyaf o bobl, eu cartrefi yw sylfaen eu bywyd bob dydd ac maent yn hollbwysig i ansawdd eu bywyd. Gall y rhan fwyaf o aelwydydd ddod o hyd i gartrefi drwy gynlluniau perchen-feddiannaeth, y sector rhent cymdeithasol neu, yn gynyddol, y farchnad rent breifat ond mae angen i ni sicrhau bod y cyflewnad o dai yn cyd-fynd ag anghenion tai lleol a bod cymorth ar gael i aelwydydd unigol na allant ddod o hyd i gartrefi neu y mae eu cartrefi yn anaddas, mewn cyflwr gwael neu mewn perygl. Mae'r amcan tai yn golygu gwneud y canlynol:

- Sicrhau y darperir amrywiaeth o dai i bobl eu rhentu neu eu prynu
- Sicrhau, os bydd anghenion pobl yn newid, y gallant barhau i fwy yn eu cartref
- Lleihau effaith yr argyfwng tai ar unigolion a theuluoedd.

Pam rydym wedi dewis yr Amcan Gwella hwn? / Pam mae'n bwysig?

Mae angen i ddinas lwyddiannus gael amrywiaeth o dai gwahanol i'w rhentu a'u prynu, ar gyfer mathau gwahanol o aelwydydd, fel y gall pobl ddewis ble maent yn byw a dod o hyd i'r math cywir o dai iddyn nhw.

Mae'r amcan tai yn ategu pob un o'r nodau Llesiant ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol ond mae'n hanfodol i dair ohonynt. Er mwyn sicrhau 'cymunedau cydlynus' mae angen darparu'r cartrefi cywir i bobl fwy ynddynt: yn y cartref cywir a'r ardal gywir, mae pobl yn teimlo'n fwy sefydlog; gallant gynllunio ar gyfer y dyfodol a chymryd rhan yn y gymuned leol. Gydag ymdeimlad o gymuned, mae pobl yn teimlo'n fwy diogel ac yn fwy tebygol o gynorthwyo ei gilydd. Er mwyn sicrhau 'Cymru Iach', mae angen sicrhau bod gan bobl gartrefi diogel a chynnes, sy'n eu galluogi i sicrhau parhad gofal iechyd a chymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n eu helpu i gynnal eu lles corfforol a meddyliol. Er mwyn sicrhau 'Cymru Ffyniannus', mae angen sicrhau bod gan deuluoedd gartrefi lle mae cyfleoedd i gael addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, fel y gall pobl sicrhau eu ffyniant economaidd eu hunain a chyfrannu at yr economi leol a chenedlaethol.

Beth rydym wedi'i wneud hyd yn hyn?

Drwy'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol a'r Strategaeth Dai Leol, mae'r Cyngor yn cydbwysu anghenion tai tymor hwy y ddinas â'r ymyriadau sydd eu hangen i gefnogi aelwydydd unigol a chymunedau yn y byrdymor. Mae'r awdurdod wedi ymrwymo i ddarparu tai fforddiadwy newydd drwy'r broses gynllunio a'r rhaglen grant tai cymdeithasol. Mae polisi cynllunio ar waith er mwyn sicrhau y darperir tai fforddiadwy ar bob safle sy'n cynnwys 10 uned neu fwy yn yr ardal drefol ac ar safleoedd sy'n cynnwys tair uned neu fwy yn y cymunedau gwledig. Mae'r polisi hwn wedi sicrhau yn y gorffennol bod cartrefi fforddiadwy yn cael eu darparu lle mae tai newydd ar gyfer y farchnad yn cael eu datblygu ac wedi darparu cymunedau cymysg a chytbwys ledled ardal yr awdurdod. Yn anffodus, oherwydd anawsterau economaidd, mae'r diwydiant datblygu erbyn hyn angen lleihau'r nifer o dai fforddiadwy ar safleoedd ac mae hyn yn dechrau effeithio ar y broses o gyflenwi tai fforddiadwy newydd. Bob blwyddyn mae Llywodraeth Cymru yn dyrannu bron £2 filiwn i Gyngor Dinas Casnewydd er mwyn iddo ddarparu cartrefi fforddiadwy. Caiff y dyraniad hwn ei neilltuo'n llawn bob blwyddyn a gofynnir am arian ychwanegol tua diwedd y flwyddyn hefyd.

Mae rhoi grantiau cyfleusterau i'r anabl yn un o swyddogaethau statudol unrhyw awdurdod lleol ac, ynghyd â grantiau diogelwch yn y cartref, maent yn sicrhau bod cartrefi yn ddiogel ac yn hygyrch i'r rhai sy'n byw ynddynt. Mae Casnewydd wedi cynnal adolygiad trylwyr o'r broses yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gan ddiwygio'r broses

er mwyn cyflymu'r gwaith o roi grantiau ac atal blocio gwelyau mewn ysbytai. Mae sicrhau y gall pobl fyw'n ddiogel yn eu cartrefi eu hunain yn lleihau'r pwysau ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Yn anffodus, yn rhy aml o lawer, gall pobl golli eu cartref oherwydd pwysau ariannol. Gellir osgoi hyn weithiau drwy ymyrryd yn gynnar a darparu cymorth. Mae atal digartrefedd yn hytrach na'r gwasanaeth adweithiol sy'n darparu llety dros dro i deuluoedd yn cael ei ystyried yn arfer da gan bob awdurdod lleol; nid un unig oherwydd y canlyniad llawer gwell i'r unigolion dan sylw ond hefyd oherwydd y costau is i bwrs y wlad. Mae Gwasanaeth Cyngor ar Dai Casnewydd wedi helpu llawer o deuluoedd ac unigolion i gadw eu cartref ac aros o fewn eu cymunedau. Bydd pwysau newidiadau i'r system fudd-daliadau yn golygu bod y gwasanaeth hwn yn fwy hanfodol fyth yn y flwyddyn sydd i ddod.

Beth rydym yn mynd i'w wneud?

Beth rydym yn mynd i'w wneud eleni?	Pa wahaniaeth y bydd yn ei wneud?
3.1 Sicrhau unedau ychwanegol o dai fforddiadwy a bod cartrefi preifat gwag yn cael eu defnyddio unwaith eto.	Bydd mwy o gartrefi fforddiadwy o ansawdd da ar gael yng Nghasnewydd.
3.2 Lleihau'r amseroedd aros am addasiadau mawr a mân.	Bydd mwy o bobl ag anabledd yn gallu byw'n annibynnol; bydd llai o bobl yn gorfod mynd i'r ysbyty neu i mewn i gartref gofal preswyl am fod eu cartref yn anaddas, tra bydd eraill yn gallu gadael yr ysbyty yn gynt, gan helpu i ryddhau gwelyau mewn ysbytai.
3.3 Atal pobl rhag mynd yn ddigartref pryd bynnag y gallwn.	Ni fydd yn rhaid i deuluoedd nac unigolion wynebu'r trawma a'r aflonyddwch a achosir gan ddigartrefedd. Bydd mwy o bobl yng Nghasnewydd yn cael eu hatal rhag mynd yn ddigartref yn y lle cyntaf a byddant yn gallu aros yn eu cymunedau presennol. Caiff llai o bobl eu rhoi mewn llety brys megis hosteli a mathau eraill o lety dros dro a ddefnyddir gan y Cyngor, ar gyfartaledd.

Sut y byddwn yn gwybod?

Mesur	Perfformiad 15/16	Perfformiad presennol (C2 2016/17)	Targed ar gyfer 16/17	Newidiadau i'r Targed
Faint rydym wedi'i wneud?				
3a Nifer yr unedau tai fforddiadwy a ddarperir	142 (2015/16)	Mesur blynyddol - nid oes data ar gael eto	60	Dim newidiadau ar hyn o bryd, caiff targedau ar gyfer 2017/18 eu cynnwys yn y broses o gynllunio gwasanaethau yn 2017/18
3b Nifer y bobl sy'n cysylltu â'r awdurdod i gael cyngor a chymorth ynglŷn â thai sy'n ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref (Adran 62 Asesiad a ysgogwyd o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014)	680 (chwarter 2 2015/16)	1,178	650 y chwarter	
Pa mor dda y gwnaethom ni?				
3c PSR/002 Amseriad Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl	216 diwrnod (2015/16)	184 diwrnod	238 diwrnod	
3d PSR/006 Nifer y diwrnodau, ar gyfartaledd, addasiadau nad ydynt yn gymwys i gael grant cyfleusterau i'r anabl.	15 diwrnod (2015/16)	18 diwrnod	19 diwrnod	
Oes unrhyw un wedi elwa?				
3e Canran yr aelwydydd a ataliwyd rhag mynd yn ddigartref o dan a66 o Ddeddf Tai (Cymu) 2014	56 (chwarter 2 2015/16)	50%	50%	

Partneriaeth: Â phwy y mae angen i ni gydweithredu?

Llywodraeth Cymru, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, datblygwyr tai masnachol, landlordiaid yn y sector preifat, ysbytai a gwasanaethau iechyd, sefydliadau yn y sector gwirfoddol, gwasanaethau brys, perchenogion eiddo gwag.

Pa risgiau sydd angen i ni eu rheoli a'u hatal?

Risg	Gweithgaredd Lliniaru/Atal	Gradd y Risg Mawrth 2016	Gradd Presennol y Risg
Cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer Grant Tai Cymdeithasol a mentrau tai.	Sicrhau y caiff cymaint o'r cyllid presennol â phosibl ei wario ac ymateb yn brydlon i gyfleoedd cyllido wrth iddynt godi.	Canolig	Canolig
Effaith amodau yn y farchnad dai ar fuddsoddi gan y sector preifat.	Cynnal cydberthnasau a gwasanaethau er mwyn cefnogi gweithgarwch yn y sector preifat cymaint â phosibl.	Canolig	Canolig
Adnoddau'r gwasanaeth tai, gan gynnwys ei allu i ymateb i unigolion mewn argyfwng oherwydd toriadau yn sgil diwygiadau lles llywodraeth ganolog.	Gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o wasanaethau tai er mwyn sicrhau y gellir darparu gwasanaethau yn effeithiol i ddiwallu anghenion.	Canolig	Canolig

A oes cyllideb ar gael i gyflwyno gwelliannau?

Amcan gwella	Cyllid a nodwyd i gyflwyno gwelliannau (£'000)	Sylwadau Ariannol Ychwanegol
3.1 Sicrhau unedau ychwanegol o dai fforddiadwy a bod cartrefi preifat gwag yn cael eu defnyddio unwaith eto.	£165,000	Mae'r gyllideb strategaeth a datblygu yn derbyn cyllid craidd. Mae'n ariannu tîm o weithwyr proffesiynol sy'n gyfrifol am sicrhau tai fforddiadwy ychwanegol a bod cartrefi gwag yn cael eu defnyddio unwaith eto.
3.2 Lleihau'r amseroedd aros am addasiadau mawr a mân.	£1,436,000	Mae'r cyllid yn cynnwys £1.436m o arian cyfalaf ar gyfer rhoi grantiau diogelwch yn y cartref a grantiau cyfleusterau i'r anabl. Mae tîm o staff sy'n gyfrifol am ddarparu'r gwasanaeth addasiadau mawr a mân (£242,506). At hynny, mae'r Awdurdod yn darparu gwasanaeth asiantaeth am ffi a gaiff ei brigdorri o'r gyllideb gyfalaf (£265,978).
3.3 Atal pobl rhag mynd yn ddigartref pryd bynnag y gallwn.	£781,000	Mae'r cyllidebau atal digartrefedd hefyd yn cael eu defnyddio i reoli llety dros dro. Ceir arian grant ychwanegol gwerth £129,600 drwy'r grant cefnogi pobl (TASA) - gydag unrhyw arian grant ychwanegol mae risg os bydd hyn yn lleihau. Yn 2016/17, cawsom £149,400 o arian Baich Newydd gan Lywodraeth Cymru, a'i fwriad yw helpu cynghorau i gydymffurfio â Rhan 2 Deddf Tai Cymru, 2014. Disgwylir toriad yn y cyllid yn 2017/18, a fydd yn lleihau'r adnoddau sydd ar gael er mwyn atal digartrefedd.

Amcan Gwella 4

Adfywio a Datblygu'r Ddinas

Cysylltiad â'r Cynllun Corfforaethol: Dinas sy'n Dysgu ac yn Gweithio

Cysylltiad â'r Nodau Llesiant: Cymru lewyrchus, Cymru gydnerth, Cymru o gymunedau cydlynus

Aelodau Arweiniol y Cabinet: Aelod y Cabinet dros Adfywio a Buddsoddi ac Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Cymunedol, Gwaith a Sgiliau

Swyddog Arweiniol: Pennaeth Gwasanaethau Adfywio, Buddsoddi a Thai

Beth yw'r Amcan Gwella?

Yn dilyn ymgynghoriad cynhwysfawr, ym mis Ebrill 2015 ailddatganodd y Cyngor mai datblygu a 'Adfywio a Datblygu'r Ddinas' yn un o'r prif flaenoriaethau o fewn ei raglen i sicrhau gwelliant parhaus. Mae'r amcan yn mynd law yn llaw â chyflawni Strategaeth Twf Economaidd y Cyngor, sef 'Pobl, Lleoedd, Ffyniant', a fydd yn parhau i ddatblygu Casnewydd fel 'ardal o newid amlwg, gydag uchelgeisiau uchel, cyflawniad uchel a ffyniant a rennir'. Y nodau allweddol o fewn y strategaeth hon sy'n cyd-fynd â'r amcan gwella yw:

- Sicrhau ffyniant a rennir: sefydlu partneriaethau sgiliau a gwaith cadarn, sy'n cefnogi sectorau twf a nodwyd ar gyfer Casnewydd a'r rhanbarth a manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd cyflogaeth yn y dyfodol;
- Creu amgylchedd economaidd ardderchog: parhau i ganolbwyntio ar ddatblygu ac adfywio'r ddinas, gan gynyddu cyfraniad Casnewydd at y ddinas-ranbarth ehangach, a chynyddu cysylltedd;
- Symud Casnewydd i fyny'r gadwyn werth: meithrin sectorau twf uchel a hyrwyddo arloesedd ac entrepreneuriaeth.

Pam rydym wedi dewis yr Amcan Gwella hwn? / Pam mae'n bwysig?

Bu 2015 yn flwyddyn bwysig iawn i Gasnewydd. Agorodd y datblygiad hamdden a manwerthu defnydd cymysg hirddisgwyliedig yn Friar's Walk ym mis Tachwedd 2015 gan ailsefydlu'r ddinas fel cyrchfan allweddol ar gyfer hamdden a manwerthu. Mae'r datblygiad llwyddiannus diweddaraf hwn yn rhoi hwb pellach i broffil cynyddol Casnewydd fel cyrchfan ryngwladol gredadwy a all gynnal digwyddiadau rhyngwladol o'r radd flaenaf, gan gynnwys Cwpan Ryder 2010 ac Uwchgynhadledd Nato 2014.

Mae'r cyfleoedd a gynigir gan adfywiad Casnewydd wedi helpu i sicrhau pecyn o fuddsoddiad parhaus yng nghanol dinas Casnewydd sy'n werth dros £250m, buddsoddiad nas gwelwyd mo'i debyg o'r blaen. Bydd gwaith seilwaith mawr, gan gynnwys ffordd liniau'r M4, trydaneiddio rheilffyrdd a phrosiect Metro De Cymru yn atgyfnerthu statws Casnewydd fel lleoliad economaidd strategol yn Ne Cymru. Mae rhaglenni parhaus sylweddol Casnewydd sy'n cefnogi datblygiadau tai newydd a'r prosiect nodedig i sefydlu Canolfan Gynadledda i Gymru yng ngwesty'r Celtic Manor, hefyd yn newyddion cadarnhaol i'r ddinas.

Mae prosiectau o'r fath hefyd yn pwysleisio na all Casnewydd fodloni ar yr hyn a gyflawnwyd hyd yma wrth adfywio'r ddinas a bod yn rhaid iddi sicrhau na fydd y ddinas yn colli momentwm ac y caiff y manteision y gallai'r prosiectau mawr hyn eu sicrhau i gymunedau a thrigolion y ddinas eu gwireddu'n llawn. Felly, gall adfywio a datblygu'r ddinas gael ei ystyried yn brif weithgaredd i'r Cyngor a'i genhadaeth i 'wella bywydau pobl'.

Bydd yr amcan hwn yn cyfrannu at y nodau Llesiant, yn enwedig 'Cymru lewyrchus', 'Cymru gydnerth' a 'Cymru o gymunedau cydlynus'. Un o nodau hanfodol rhaglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid yw herio'r tlodi cymharol a welir yn arbennig ar draws cymunedau yng nghanol y ddinas drwy gysylltu pobl â chyfleoedd newydd, gan gynnwys tai o ansawdd da, swyddi, hyfforddiant sgiliau ac entrepreneuriaeth. Byddai adfywio'r ddinas fel lle y mae pobl am fuddsoddi ynddo a bod yn rhan ohono yn gwella cydnerthedd canol y ddinas drwy ei chryfhau yn erbyn tryblith economaidd yn y dyfodol, a chreu cysylltiadau cymdeithasol cryfach a pherchenogaeth a rennir a chanfyddiad newydd o ganol y ddinas.

Beth rydym wedi'i wneud hyd yn hyn?

Yn ystod y pum mlynedd diwethaf mae Casnewydd wedi perfformio'n dda o ran ei weithgarwch adfywio ffishogol a chymdeithasol, yng nghanol y ddinas a'i chymunedau ehangach:

- Cwblhawyd datblygiad siopa a hamdden gwerth £90m yn Friars Walk, gan greu 1200 o swyddi newydd;
- Mae rhaglen 'Cysylltu Commercial Street' Casnewydd, sy'n werth £17m, o dan raglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid Llywodraeth Cymru wedi'i chyflawni hyd at fis Mawrth 2017;
- Sefydlwyd 'Newport Now', sy'n Ardal Gwella Busnes ar gyfer canol y ddinas;
- Cwblhawyd rhaglen ailddatblygu Admiral, gan ddod â 1200 o swyddi ychwanegol i ganol y ddinas;
- Cwblhawyd rhaglen adeiladau allweddol Llywodraeth Cymru gwerth £2.5 miliwn (a oedd yn cynnwys nifer o adeiladau allweddol a mynedfa newydd ar y Stryd Fawr i'r Farchnad Dan Do);
- Cafodd pecyn o welliannau i ganol y ddinas, gwerth £4 miliwn, ei gwblhau yn 2010 er mwyn paratoi ar gyfer Cwpan Ryder;
- Mae'r gwaith o greu parc a rhodfa glan afon newydd wedi'i gwblhau ynghyd â nifer o welliannau i dir y cyhoedd, gan gynnwys cefnogi Llwybr Arfordir Cymru;
- Cwblhau sawl cynllun arbedion ynni mawr a oedd yn cwmpasu eiddo anodd ei drin yng Nghasnewydd, gan greu swyddi, lleihau tlodi a sicrhau bod cymunedau Casnewydd yn lleoedd mwy cynaliadwy a deniadol i fyw ynddynt;
- Cwblhawyd y gwaith o adfer nifer o lociau yn y system gamlesi sydd â 14 o lociau;
- Sefydlwyd yr Athrofa Dysgu Seiliedig ar Waith, gan greu cannoedd o gyfleoedd hyfforddi newydd i drigolion lleol;
- Diolch i fenthyciadau i fusnesau, grantiau i fusnesau newydd a chymorth mewnfuddsoddi, llwyddwyd i greu a diogelu mwy na 1,300 o swyddi;
- Darparu'r cynllun talebau band eang cyflym iawn i fusnesau yng Nghasnewydd a'r rhanbarth ehangach;
- Gwnaethom helpu i greu Academi Meddalwedd Platform II mewn partneriaeth â Phrifysgol Caerdydd;
- Cronfa Partneriaeth Canol y Dref ar gyfer Maendy.

Beth rydym yn mynd i'w wneud?

Bydd yr arian Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid yn dod i ben ar 31 Mawrth 2017 a rhagwelwn y bydd y rhaglen wedi'i chyflawni'n llawn. Ni wyddir am raglenni cyllid grant yn y dyfodol ar hyn o bryd.

Beth rydym yn mynd i'w wneud eleni?	Pa wahaniaeth y bydd yn ei wneud?
4.1 Cyflawni Rhaglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid.	Darparu nifer sylweddol o dai newydd neu dai wedi'u gwella yng nghanol y ddinas. Creu swyddi a chyfleoedd hyfforddi newydd. Cynyddu nifer yr unigolion sy'n ymweld â chanol y ddinas.
4.2 Darparu cymorth cydlynol i fusnesau.	Cyngor/Grantiau/benthyciadau.
4.3 Datblygu arwynebedd llawr masnachol.	Gwella arwynebedd llawr masnachol sydd ar gael yn y ddinas, hyfywedd busnesau a'r amgylchedd masnachu. Cynyddu nifer yr unigolion sy'n ymweld â chanol y ddinas.

Sut y byddwn yn gwybod?

Mesur	Perfformiad 15/16	Perfformiad presennol (C2 2016/17)	Targed ar gyfer 16/17	Newidiadau i'r Targed
Faint rydym wedi'i wneud?				
4a Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid - cyflawnwyd y rhaglen	£5,226,460*	Mesur blynyddol - nid oes data ar gael eto	£350,000	Nid oes angen newidiadau i'r targedau ar hyn o bryd, caiff targedau ar gyfer 2017/18 eu nodi drwy broses cynllunio gwasanaethau 2017/18.
4b Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid - gwellwyd arwynebedd llawr masnachol	1339 metr sgwâr 1360 metr sgwâr**	Mesur blynyddol - nid oes data ar gael eto	50 metr sgwâr	
Pa mor dda y gwnaethom ni?				
4c Swyddi a grewyd/galluogwyd (Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid + Cymorth i Fusnesau)	498	Mesur blynyddol - nid oes data ar gael eto	420	
Oes unrhyw un wedi elwa?				
4d Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid - Cynyddu nifer y Tai yng nghanol y ddinas	49 ***	Mesur blynyddol - nid oes data ar gael eto	65	

*Cyflawni gwariant llawn o gyllideb B2 Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid

** Gwesty King's (400 wedi'u cadarnhau), PES (360), Potters (600)

*** 62-66 Heol Caerdydd (15), Gwesty King's (34)

Partneriaeth a Chydweithredu: Gyda phwy y mae angen i ni weithio?

Aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol; Y gymuned fusnes a masnachwyr yng nghanol y ddinas; Llywodraeth Cymru; Tasglu Llywodraeth Cymru; Sector Preifat/Trydydd Sector a datblygwyr sy'n landlordiaid cymdeithasol cofrestredig.

Pa risgiau sydd angen i ni eu rheoli a'u hatal?

Risg	Gweithgaredd Lliniaru/Atal	Gradd y Risg Mawrth 2016	Gradd Presennol y Risg
Diddordeb gan ddatblygwyr/eiddo ar gael.	Eiddo amgen addas/caiff cynlluniau eu nodi fel cynlluniau wrth gefn.	Isel – ar hyn o bryd mae cryn dipyn o ddiddordeb ymhlith datblygwyr ar draws sectorau.	Isel - mae rhagor o gynlluniau a chynigion yn parhau i gael eu cyflwyno yng Nghanol Dinas Casnewydd a thu hwnt.
Anallu i sicrhau cyllid.	Cyflwyno cais cryf ar gyfer rhaglen Lleoedd Llewyrchu Llawn Addewid II Medi 2016. Ystyried cyfleoedd ariannu eraill (e.e. Arian y Loteri).	Canolig – caiff y risg sy'n gysylltiedig â phrosesau gwneud cais cystadleuol ei rheoli drwy gyflwyno ceisiadau cryf yn seiliedig ar bartneriaethau presennol a phartneriaethau sy'n datblygu.	Uchel -mae'r oedi o ran Llywodraeth Cymru yn cwblhau'r manylion ar gyfer arian adfwyio yn y dyfodol yn peri risg sylweddol o ran momentwm adfwyio Casnewydd.

A oes cyllideb ar gael i gyflwyno gwelliannau?

Amcan gwella	Cyllid a nodwyd i gyflwyno gwelliannau (£'000)	Sylwadau Ariannol Ychwanegol
4.1 Cyflawni Rhaglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid.	£4,364,879	Arian grant allanol gan Lywodraeth Cymru. 2016/17 yw trydedd flwyddyn rhaglen dair blynedd a dyfarnwyd grant o £4,404,899. Mae adfywiad canol y dref a gyflawnwyd gan y rhaglen yn cynnwys tai wedi'u gwella, tir y cyhoedd a mwy o arwynebedd llawr masnachol.
4.2 Darparu cymorth cydlynol i fusnesau.	£60,000	Sicrhawyd cyllideb graidd o £60,000 er mwyn darparu cymorth ychwanegol i fusnesau. Cynigir benthyciadau i fusnesau ac mewn blynyddoedd blaenorol mae busnesau wedi darparu cyllid allanol ar gyfer grantiau a oedd ar gael gan UK Steel. Mae gostyngiad mewn cyllid allanol yn destun pryder gan y bydd hyn yn effeithio ar faint o gymorth ariannol y gellir ei gynnig.
4.3 Datblygwyd arwynebedd llawr masnachol.	DD/G	Fel uchod.

Amcan Gwella 5

Cynorthwyo pobl ifanc i gael addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant

Cysylltiad â'r Cynllun Corfforaethol: Dinas sy'n Dysgu ac yn Gweithio
Cysylltiad â'r Nodau Llesiant: Cymru lewyrchus, Cymru iachach, Cymru fwy cyfartal
Aelod Arweiniol y Cabinet: Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Cymunedol, Gwaith a Sgiliau
Swyddog Arweiniol: Cyfarwyddwr Strategol - Pobl

Beth yw'r Amcan Gwella?

Mae tystiolaeth o'r gwaith a wnaed gan yr Athro David Egan (ar ran Sefydliad Joseph Rowntree) yn awgrymu bod ymdrechion i atal pobl ifanc rhag bod yn NEET yn cael mwy o effaith yn yr hirdymor na gwaith a wneir i helpu pobl ifanc NEET i ddychwelyd at ddarpariaeth. Mae Amcan Gwella Cynorthwyo Pobl ifanc i aros mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant yn canolbwyntio ar nodi pobl ifanc sydd mewn perygl o ymddieithrio rhag addysg a hyfforddiant yn gynnar, rhannu gwybodaeth a darpariaeth ychwanegol, benodol i ddiwallu anghenion pobl ifanc.

Pam rydym wedi dewis yr Amcan Gwella hwn? / Pam mae'n bwysig?

Mae'r Amcan Gwella hwn yn bwysig oherwydd, yn hanesyddol, Casnewydd sydd â'r ganran uchaf o bobl ifanc sy'n dod yn NEET yng Nghymru, er bod gwelliannau sylweddol wedi'u gwneud. Mae gwaith ymgynghori ynghylch y Blaenoriaethau ar gyfer Gwella yn dangos yn glir bod hyn yn flaenoriaeth i bobl yng Nghasnewydd a rhoddir sylw i'r mater yn y Cynllun Integredig Sengl. Fel Awdurdod Lleol mae gennym gyfrifoldebau statudol clir iawn am Wasanaethau Cymorth leuencid, fel y nodir yn y Ddeddf Dysgu a Sgiliau – bwriedir iddynt sicrhau bod pobl ifanc yn trosglwyddo'n llwyddiannus rhwng rhaglenni dysgu. Mae Llywodraeth Cymru wedi'i gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol (o dan bwerau yn y Ddeddf Dysgu a Sgiliau) weithredu'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu leuencid ac mae'r Flaenoriaeth Wella yn canolbwyntio ar hyn.

Bydd yr amcan yn cyfrannu at nodau Llesiant, yn enwedig 'Cymru lewyrchus', 'Cymru iachach' a 'Cymru fwy cyfartal'.

Beth rydym wedi'i wneud hyd yn hyn?

Mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud o ran darparu cymorth i bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn ystod 2015/16. Mae'r Awdurdod Lleol wedi arwain y broses o roi'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu leuencid ar waith ac wedi datblygu adnodd nodi'n gynnar y mae pob ysgol uwchradd yn ei ddefnyddio. Mae trefniadau partneriaeth cadarn ar waith i reoli prosesau cyn ac ar ôl oedran addysg orfodol ac fe'u hategir gan Brotocol Rhannu Gwybodaeth. Mae Gyrfa Cymru wedi gallu darparu data yn amserol sydd wedi helpu i sicrhau bod pobl ifanc yn cael cymorth priodol pan nad yw trosglwyddiad syml yn bosibl. Mae darparu rhaglenni seiliedig ar waith drwy'r Athrofa Dysgu Seiliedig ar Waith, Rhaglen Casnewydd yn Gweithio a rhaglenni trechu tlodi (Teuluoedd yn Gyntaf a Cymunedau yn Gyntaf) wedi sicrhau bod cymorth bob amser ar gael er mwyn helpu pobl ifanc i drosglwyddo. Mae'r Gwasanaeth leuencid wedi ymgymryd â rôl werthfawr wrth olrhain pobl ifanc sydd wedi ymddieithrio rhag gwasanaethau a darparwyr ac ymgysylltu â hwy. Mae ysgolion wedi rhoi trefniadau cymorth arfer gorau ar waith ar gyfer pobl ifanc a all fod mewn perygl o ymddieithrio rhag dysgu ac mae darparwyr gwaith ar ôl oedran addysg orfodol yn cydweithio'n dda i gynllunio darpariaeth yn well.

Beth rydym yn mynd i'w wneud?

Parhau â'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu leuencid yn unol â Chanllawiau Llywodraeth Cymru, gan ganolbwyntio ar nodi pobl ifanc sydd mewn perygl o ymddieithrio rhag addysg a hyfforddiant yn gynnar, olrhain, brocera, cyflogadwyedd, atebolrwydd a darpariaeth.

Beth rydym yn mynd i'w wneud eleni?	Pa wahaniaeth y bydd yn ei wneud?
5.1 Bydd cydgysylltydd y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu leuencid yn darparu cymorth ar gyfer defnyddio'r adnodd nodi'n gynnar gydag ysgolion ac yn rheoli darpariaeth gweithwyr arweiniol ar gyfer unigolion sydd mewn perygl.	Bydd hyn yn sicrhau y gall y cymorth priodol fod ar gael i bobl ifanc cyn gynted â phosibl, gan atal pobl ifanc rhag dod yn NEET.

Beth rydym yn mynd i'w wneud eleni?	Pa wahaniaeth y bydd yn ei wneud?
5.2 Cyflwyno Prosiect Sgiliau Plant a Phobl Ifanc y rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf i bobl ifanc a dargedwyd mewn ysgolion.	Cymorth Gweithwyr leuenctid Proffesiynol i bobl ifanc a dargedwyd, gan eu helpu i aros mewn addysg.
5.3 Cyflwyno prosiectau Ysbrydoli i Gyflawni ac Ysbrydoli i Weithio Cronfa Gymdeithasol Ewrop i bobl ifanc mewn perygl a nodwyd drwy adnodd Nodi'n Gynnar y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu leuenctid.	Cymorth gwell i'r bobl ifanc sydd fwyaf agored i niwed, cyn-16 ac ôl-16. Cynnig cymorth mentor, profiad gwaith a llwybrau dilyniant i ddysgu, addysg a chyflogaeth bellach.
5.4 Cyflawni prosiect ymgysylltu NEET y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf o dan ei thema ddysgu mewn pedair ardal glwstwr yng Nghasnewydd. Helpu pobl ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu.	Cynnig cyfleoedd dysgu i bobl 16-17 oed er mwyn eu galluogi i ailymgysylltu â chyfleoedd addysg a hyfforddiant.
5.5 Cyflawni rhaglen Cymunedau am Waith a ariennir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop a Llywodraeth Cymru. Targedu a chefnogi pobl 18-24 oed sydd wedi ymddieithrio ac sy'n chwilio am waith.	Darparu hyfforddiant a chymorth galwedigaethol i'r rhai sy'n chwilio am gyflogaeth gynaliadwy llawn amser, gan leihau nifer y bobl ifanc sy'n cael eu cyfrif yn NEET.
5.6 Gwaith uniongyrchol gyda Gyrfa Cymru er mwyn sicrhau bod systemau data a systemau olrhain ar waith a'u bod yn gweithio'n effeithiol i olrhain POB person ifanc wrth drosglwyddo.	Bydd hyn yn sicrhau y darperir gwybodaeth gywir, amserol a deallus, yn unol â'r Protocol Rhannu Gwybodaeth y cytunwyd arno, a bydd yn cyfrannu'n benodol at y gwaith o gyfyngu ar nifer y bobl ifanc sy'n dod yn anhysbys neu'n NEET.
5.7 Gweithio gyda darparwyr addysg a dysgu pellach er mwyn sicrhau bod darpariaeth briodol ar gael ar bwyntiau trosglwyddo ar ôl addysg orfodol.	Mae'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu leuenctid yn ei gwneud yn ofynnol i gynnig darpariaeth addysg neu hyfforddiant benodol i bob person ifanc pan fydd yn gadael addysg orfodol a chaiff hyn ei reoli drwy grŵp Ymarferwyr Ôl-16, gyda chynrychiolwyr o bob darparwr.
5.8 Datblygu a chyflawni rhaglenni cyflogadwyedd penodol drwy'r Athrofa Dysgu Seiliedig ar Waith er mwyn diwallu anghenion y bobl ifanc hynny sydd ond yn chwilio am waith (gan gynnwys prentisiaeth).	Mae cyfran sylweddol o gyfanswm ein pobl ifanc NEET ond yn chwilio am waith. Felly, bydd hyn yn eu helpu i gyflawni eu nodau a lleihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET. Darparu clybiau swyddi penodol i bobl ifanc a chyfleoedd i ddilyn llwybrau penodol megis prentisiaethau.
5.9 Mapio'r ddarpariaeth i'r bobl ifanc hynny na allant symud ymlaen yn erbyn eu hanghenion penodol a sicrhau bod systemau cadarn ar waith i'w helpu i drosglwyddo.	Ni all rhai pobl ifanc barhau mewn addysg, dysgu na hyfforddiant am nifer o resymau, megis cyfrifoldebau gofalu, salwch (gan gynnwys problemau iechyd meddwl) neu am eu bod yn ymwneud â'r system cyfiawnder troseddol. Drwy wella ein dealltwriaeth o'r anghenion a materion adnoddau byddwn yn gallu gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i'w bywydau.
5.10 Cyfarfod yn rheolaidd â Gyrfa Cymru, Darparwyr Dysgu Seiliedig ar Waith a Choleg Gwent er mwyn sicrhau bod darpariaeth yn diwallu anghenion pobl ifanc yn briodol.	Bydd hyn yn sicrhau gwell prosesau cyfnewid gwybodaeth ac atebolrwydd a rennir am y bobl ifanc hynny nad oes ganddynt leoedd.

Beth rydym yn mynd i'w wneud eleni?	Pa wahaniaeth y bydd yn ei wneud?
5.11 Sicrhau y rhoddir sylw i'r cyfrifoldebau statudol yn y Ddeddf Dysgu a Sgiliau er mwyn i'r Cyngor fod yn hyderus ein bod yn cyflawni ein cyfrifoldebau statudol mewn perthynas â Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid (yn unol ag argymhellion Swyddfa Archwilio Cymru).	Mae gan yr Awdurdod Lleol gyfrifoldeb statudol i sicrhau bod digon o wasanaethau cymorth ar gael i bobl ifanc sy'n eu galluogi i gymryd rhan mewn addysg, dysgu a'r cymunedau (y cyfeirir atynt gyda'i gilydd fel Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid) a chyfranogi mewn gwasanaethau o'r fath. Caiff hyn ei fonitro'n fwy trylwyr o fewn y Flaenoriaeth hon ar gyfer Gwella.

Sut y byddwn yn gwybod?

Mesur	Perfformiad 15/16	Perfformiad presennol (C2 2016/17)	Targed ar gyfer 16/17	Newidiadau i'r Targed
Faint rydym wedi'i wneud?				
5a Nifer y bobl ifanc sy'n defnyddio'r Prosiect Sgiliau Plant a Phobl Ifanc	1,086	227	1000	Dim newidiadau targed ar hyn o bryd, caiff targedau ar gyfer 2017/18 eu nodi yn ystod y broses o gynllunio gwasanaethau yn 2017/18.
5c Nifer y newydd-ddyfodiaid 16-17 oed yn yr Athrofa Dysgu Seiliedig ar Waith	DD/G	73	150	
5d Nifer y newydd-ddyfodiaid 18-24 oed yn yr Athrofa Dysgu Seiliedig ar Waith	DD/G	105	350	
Pa mor dda y gwnaethom ni?				
5j % y bobl ifanc y cofnodir eu bod yn anhybys ar ôl addysg orfodol (Arolwg Cychfan Gyrfa Cymru)	Mesur newydd	Mesur blynyddol - nid oes data ar gael eto	0.5%	
Oes unrhyw un wedi elwa?				
5k % y bobl ifanc ym mlwyddyn 11 sy'n NEET	3.1%	Mesur blynyddol - nid oes data ar gael eto	3.5% (pobl ifanc a adawodd yr ysgol ym mlwyddyn academaidd 2014/15)	
5l % y bobl ifanc ym mlwyddyn 13 sy'n NEET	2.4%	Mesur blynyddol - nid oes data ar gael eto	4% (pobl ifanc a adawodd yr ysgol ym mlwyddyn academaidd 2014/15)	
5m % y bobl ifanc 16-18 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (mis Hydref)	4%	Mesur blynyddol - nid oes data ar gael eto	10% mis Hydref 2016	
5n Nifer y bobl ifanc 16-17 oed sy'n symud ymlaen o'r Athrofa Dysgu Seiliedig ar Waith i gyfle pellach	Mesur newydd	89	70	
5o Nifer y bobl ifanc 18-24 oed sy'n symud ymlaen o'r Athrofa Dysgu Seiliedig ar Waith i gyfle pellach	Mesur newydd	66	100	

Er mwyn canolbwyntio ar brif ganlyniadau'r gwaith a wnaed caiff rhai o'r mesurau eu dileu o'r Cynllun Gwella. Mae'r tabl isod yn dangos y mesurau sy'n cael eu dileu. Bydd y gwaith sy'n gysylltiedig â'r mesurau hyn yn dal i barhau a bydd y data dal ar gael yn y maes gwasanaeth os bydd ei angen.

Mesur
Faint rydym wedi'i wneud?
5b Nifer y cofrestriadau â chyrsgiau sgiliau sylfaenol
Pa mor dda y gwnaethom ni?
5e Nifer y bobl ifanc o fewn Haen 2 sy'n symud ymlaen i Haen 3 ac yn uwch (Model 5 Haen Gyrfa Cymru).
5f Cyfraddau cadw ar gyfer y rhai sy'n cofrestru â chyrsgiau sgiliau sylfaenol achrededig
5g Cyfradd gyflawni ar gyfer y rhai sy'n cofrestru â chyrsgiau sgiliau sylfaenol achrededig
5h Cyfradd gadw ar gyfer dysgwyr cyrsiau dysgu yn y gymuned (heb gynnwys sgiliau sylfaenol)
5i Cyfradd gyflawni ar gyfer y rhai sy'n cofrestru â chyrsgiau dysgu yn y gymuned (heb gynnwys sgiliau sylfaenol)

Partneriaeth a Chydweithredu: Gyda phwy y mae angen i ni weithio?

Caiff gwaith i helpu pobl ifanc i aros mewn addysg, cyflogaeth a hyfforddiant ei gydgyssylltu o fewn fframwaith partneriaeth cadarn, yn unol â gofynion statudol. Y Bwrdd Gwasanaethau Cymorth i Deuluoedd sy'n bennaf cyfrifol am ein hymateb partneriaeth i ddarpariaeth cymorth ieuencid. Gwneir y gwaith cydgysylltu drwy'r Bwrdd Gwasanaethau Cymorth Ieuencid ac fe'i hategir gan Bartneriaethau Cyn-16 ac Ôl-16 a Rhwydwaith Darparwyr Dysgu o'r holl ddarparwyr ledled Casnewydd. Mae Gyrfa Cymru yn bartner allweddol o fewn y gwaith hwn am ei fod yn gyfrifol am atgyfeirio a lleoli pob person ifanc yng Nghasnewydd a rheoli'r gronfa ddata o'r bobl ifanc hynny ac mae'n cynnal yr Arolwg Cyrchfan blynyddol rydym yn casglu llawer o'n data perfformiad ohono.

Pa risgiau sydd angen i ni eu rheoli a'u hatal?

Risg	Gweithgaredd Lliniaru/Atal	Gradd y Risg Mawrth 2016	Gradd Presennol y Risg
Methiant i sicrhau Arian gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop er mwyn helpu i gyflawni rhaglenni.	Mae gwaith yn mynd rhagddo yn rhanbarthol a gyda WEFO er mwyn sicrhau llwyddiant.	Isel	Mae'r arian wedi'i sicrhau am 4 blynedd felly nid yw'n peri risg bellach i'r cynllun hwn.
Problemau parhaus ynghylch y gyllideb ac adnoddau sy'n cyfyngu ar y gwaith y gellir ei wneud gyda phobl ifanc na allant drosglwyddo'n llwyddiannus.	Ymdrinnir â hyn gyda phartneriaid drwy'r Bwrdd Gwasanaethau Cymorth i Deuluoedd.	Canolig	Canolig

A oes cyllideb ar gael i gyflwyno gwelliannau?

Amcan gwella	Cyllid a nodwyd i gyflwyno gwelliannau (£'000)	Sylwadau Ariannol Ychwanegol
<p>5.1 Bydd cydgysylltydd y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuencid yn darparu cymorth ar gyfer defnyddio'r adnodd nodi'n gynnar gydag ysgolion ac yn rheoli darpariaeth gweithwyr arweiniol ar gyfer unigolion sydd mewn perygl.</p> <p>5.6 Gwaith uniongyrchol gyda Gyrfa Cymru er mwyn sicrhau bod systemau data a systemau olrhain ar waith a'u bod yn gweithio'n effeithiol i olrhain POB person ifanc wrth drosglwyddo.</p> <p>5.9 Mapio'r ddarpariaeth i'r bobl ifanc hynny na allant symud ymlaen yn erbyn eu hanghenion penodol a sicrhau bod systemau cadarn ar waith i'w helpu i drosglwyddo.</p> <p>5.10 Cyfarfod yn rheolaidd â Gyrfa Cymru, Darparwyr Dysgu Seiliedig ar Waith a Choleg Gwent er mwyn sicrhau bod darpariaeth yn diwallu anghenion pobl ifanc yn briodol.</p>	£54,169	Mae grant gwerth £54k gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuencid wedi'i gadarnhau ar gyfer 2016/17. Fe'i defnyddir er mwyn helpu i ddatblygu'r amcanion gwella hyn. Mae £53k wedi'i gadarnhau ar gyfer 2017/18.
5.2 Cyflwyno Prosiect Sgiliau Plant a Phobl Ifanc y rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf i bobl ifanc a dargedwyd mewn ysgolion.	£400,000	Cyflawnir y prosiect hwn gan y gwasanaeth ieuencid ac adenillir 100% o'i gost drwy arian grant o'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf. Nid yw 2017/18 wedi'i gadarnhau eto.
5.3 Cyflwyno prosiectau Ysbrydoli i Gyflawni ac Ysbrydoli i Weithio Cronfa Gymdeithasol Ewrop i bobl ifanc mewn perygl a nodwyd drwy adnodd Nodi'n Gynnar y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuencid - ariennir gan grant.	Cyfanswm y gyllideb ar gyfer Casnewydd – Ysbrydoli i Gyflawni Cronfa Gymdeithasol Ewrop £198,000 Ysbrydoli i Weithio Cronfa Gymdeithasol Ewrop £147,000	Caiff y prosiect hwn ei ariannu gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop hyd at 31 Mawrth 2018.
5.4 Cyflawni prosiect ymgysylltu NEET y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf o dan ei thema ddysgu mewn pedair ardal glwstwr yng Nghasnewydd. Helpu pobl ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu.	£82,000	Fe'i hariennir drwy gyfuniad o gyllid gan raglen Cymunedau yn Gyntaf (£12,000) a chytundeb lefel gwasanaeth ag ITEC Training (£70,000).
5.5 Cyflawni rhaglen Cymunedau am Waith a ariennir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop a Llywodraeth Cymru. Targedu a chefnogi pobl 18-24 oed sydd wedi ymddiethrio ac sy'n chwilio am waith.	£488,858	Mae'r prosiect hwn wedi'i ariannu 100% hyd at 31 Mawrth 2018. Daw'r arian o Lywodraeth Cymru a Chronfa Gymdeithasol Ewrop.

Amcan gwella	Cyllid a nodwyd i gyflwyno gwelliannau (£'000)	Sylwadau Ariannol Ychwanegol
<p>5.7 Gweithio gyda darparwyr addysg a dysgu pellach er mwyn sicrhau bod darpariaeth briodol ar gael ar bwyntiau trosglwyddo ar ôl addysg orfodol.</p> <p>5.11 Sicrhau y rhoddir sylw i'r cyfrifoldebau statudol yn y Ddeddf Dysgu a Sgiliau er mwyn i'r Cyngor fod yn hyderus ein bod yn cyflawni ein cyfrifoldebau statudol mewn perthynas â Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid (yn unol ag argymhellion Swyddfa Archwilio Cymru).</p>	<p>£383,407</p>	<p>Mae cyllideb graidd Partneriaeth a Pholisi ar gael i gyflawni'r amcanion gwella hyn.</p>
<p>5.8 Datblygu a chyflawni rhaglenni cyflogadwyedd penodol drwy'r Athrofa Dysgu Seiliedig ar Waith er mwyn diwallu anghenion y bobl ifanc hynny sydd ond yn chwilio am waith (gan gynnwys prentisiaeth).</p>		<p>Mae gwaith yr Athrofa Dysgu Seiliedig ar Waith yn mynd rhagddo sy'n gofyn am gyllideb ar gyfer amser staff. Mae'r holl arian ar gyfer yr aelodau hyn o staff wedi'i adennill o'r Rhaglen Waith.</p>

Amcan Gwella 6

Sicrhau'r deilliannau addysgol gorau i blant

Cysylltiad â'r Cynllun Corfforaethol: Dinas sy'n Dysgu ac yn Gweithio

Cysylltiad â'r Nodau Llesiant: Cymru lewyrchus, Cymru sy'n fwy cyfartal

Aelod Arweiniol y Cabinet: Aelod y Cabinet dros Addysg a Phobl Ifanc ac Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Cymunedol, Gwaith a Sgiliau

Swyddog Arweiniol: Prif Swyddog Addysg

Beth yw'r Amcan Gwella?

Rydym am sicrhau bod ein holl ddisgyblion yn ymwneud yn effeithiol ag addysg er mwyn iddynt allu sicrhau'r canlyniadau addysgol gorau posibl. Mae hynny'n cynnwys dysgwyr agored i niwed a allai fod mewn perygl o fethu a chyrraedd eu lefel ddisgwyliedig o ran cyrhaeddiad.

Pam rydym wedi dewis yr Amcan Gwella hwn? / Pam mae'n bwysig?

Er mwyn sicrhau bod pob disgybl yn cyflawni ei botensial dysgu ym mhob cyfnod allweddol mae iddo fod yn yr ysgol; mae angen lleihau rhwystrau i ddysgu (yn enwedig tlodi) a rhoi cymorth ychwanegol i lythrennedd a rhifedd. Bydd y dangosyddion yn llywio'r gwaith o flaengynllunio'r Gwasanaeth Addysg mewn partneriaeth â'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg ac ysgolion.

Bydd yr amcan hwn yn cyfrannu at y nodau Llesiant, yn enwedig 'Cymru lewyrchus' a 'Cymru fwy cyfartal'.

Beth rydym wedi'i wneud hyd yn hyn?

Dros y tair blynedd diwethaf mae safonau addysg ledled Casnewydd wedi gwella ym mhob Cyfnod Allweddol. Mae'r canlyniadau yn y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 yn dda iawn. Mae angen datblygu gwaith dwysach yn ein hysgolion uwchradd er mwyn sicrhau bod safonau yn gwella'n gyflymach ac yn cyfateb i berfformiad cyfartalog Cymru gyfan. Mae ysgolion cynradd Casnewydd yn perfformio'n dda o fewn y System Gategoreiddio Genedlaethol. Mae 50% o ysgolion cynradd wedi'u categorio fel rhai gwyrdd (o gymharu â chyfartaledd Cymru, sef 22%). Dim ond 12.5% (neu 1) o ysgolion uwchradd Casnewydd sydd yn y categori gwyrdd (o gymharu â chyfartaledd Cymru, sef 18%) Fodd bynnag, hon yw'r unig ysgol uwchradd werdd yn y rhanbarth

Mae cymorth i wella ansawdd addysgu a dysgu yn sefydledig ac mae pob un o ysgolion Casnewydd wedi cymryd rhan mewn amrywiol raglenni cymorth er mwyn gwella llythrennedd, rhifedd a chanlyniadau'r disgyblion hynny sydd dan anfantais oherwydd tlodi. Mae cyfran y disgyblion sydd â hawl i gael Prydau Ysgol am Ddim wedi lleihau ym mhob Cyfnod Allweddol. Fodd bynnag, mae angen sicrhau bod perfformiad o ran Prydau Ysgol am Ddim yn gwella'n gyflymach yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4 er mwyn lliniaru'r risgiau sy'n gysylltiedig ag amddifadedd ymhellach a sicrhau tegwch mewn addysg. Mae Casnewydd yn yr I6eg safle (allan o 22) o ran disgyblion sydd â hawl i Brydau Ysgol am Ddim ledled Cymru.

Mae cyfraddau presenoldeb wedi gwella ledled y ddinas, er bod ffigurau presenoldeb Casnewydd yn is na ffigurau cyfartalog Cymru. Mae presenoldeb mewn ysgolion uwchradd yn peri pryder penodol. Mae presenoldeb gwell yn gysylltiedig â lefelau cyrhaeddiad uwch ymhlith disgyblion ac mae'n rhaid ei sicrhau er mwyn cynyddu cyfleoedd plant a phobl ifanc yng Nghasnewydd mewn bywyd. Mae fforwm presenoldeb i'r ddinas gyfan wedi'i sefydlu. Mae cynllun gweithredu ar bresenoldeb wedi'i ddatblygu er mwyn datrys rhwystrau sy'n atal disgyblion rhag mynd i'r ysgol a rhannu arfer da. Mae angen i waith y fforwm barhau a datblygu fel y gall pob ysgol yng Nghasnewydd gefnogi a herio presenoldeb disgyblion mewn ffordd deg a chyson.

Dengys data fod disgyblion yn cael eu gwahardd o'r ysgol yn rhy aml yng Nghasnewydd. Mae data ar waharddiadau bellach yn cael eu rhannu a'u deall gan bob rhanddeiliad. Mae'r awdurdod lleol yn gweithio gydag ysgolion uwchradd er mwyn atal disgyblion rhag cael eu gwahardd o'r ysgol a chynllunio darpariaeth amgen lle y gall pobl ifanc fod yn llwyddiannus. Mae angen datblygu'r gwaith hwn ymhellach er mwyn sicrhau bod disgyblion yn cyfranogi'n llawn mewn cwricwlwm priodol sy'n arwain at gyflogaeth.

Beth rydym yn mynd i'w wneud?

Beth rydym yn mynd i'w wneud eleni?	Pa wahaniaeth y bydd yn ei wneud?
<p>6.1 Cynyddu nifer y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig yn Nangosydd Pwnc Craidd Cyfnod Allweddol 3, nifer y disgyblion sy'n Cyflawni Dangosydd Cynwysedig Lefel 2 (yn arbennig y rhai sy'n cael Prydau Ysgol am Ddim), nifer y disgyblion sy'n cyflawni Lefel 2 TGAU Mathemateg a Saesneg.</p> <ul style="list-style-type: none"> Bydd yr awdurdod lleol yn parhau i gomisiynu gwasanaethau'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg er mwyn cynnal a gwella ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth / addysgu a dysgu mewn ysgolion yng Nghasnewydd. Bydd yr awdurdod lleol yn parhau i ganolbwyntio ar y blaenoriaethau cenedlaethol, sef 'gwella llythrennedd, gwella rhifedd a lleihau effaith tlodi ac amddifadedd'. 	<p>Mae disgyblion sy'n parhau i berfformio'n dda yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4 yn fwy tebygol o gael cyfle i symud ymlaen i Addysg Bellach ac Addysg Uwch yn ogystal â chael gwaith (gwella ein cyfleoedd mewn bywyd i sicrhau eu lles economaidd, corfforol, cymdeithasol ac emosiynol).</p>
<p>6.2 Gwella Presenoldeb mewn Ysgolion Cynradd ac Uwchradd</p> <ul style="list-style-type: none"> Bydd yr Awdurdod Lleol yn parhau i roi sylw i'r cynllun gweithredu ar bresenoldeb gydag ysgolion. 	<p>Mae gwell lefelau presenoldeb yn gysylltiedig â gwell lefelau cyrhaeddiad ymhlith disgyblion. Bydd yr amcan hwn yn hyrwyddo cyfleoedd a chyfleoedd mewn bywyd. (O'r disgyblion sy'n colli 10 y cant ac 20 y cant o'r ysgol, dim ond 35 y cant sy'n llwyddo i ennill pum TGAU gradd A* i C, gan gynnwys Saesneg a mathemateg).</p>
<p>6.3 Lleihau nifer y disgyblion sy'n cael eu gwahardd o'r ysgol</p> <ul style="list-style-type: none"> Bydd yr Awdurdod Lleol yn cytuno ar dargedau ar gyfer gwaharddiadau ag ysgolion uwchradd ac yn monitro pa mor llwyddiannus ydynt. <p>Caiff cynllun gweithredu ar gyfer lleihau nifer y gwaharddiadau ei ddatblygu a'i roi ar waith mewn partneriaeth ag ysgolion uwchradd a'r awdurdod lleol (er mwyn lleihau nifer y gwaharddiadau a nifer y diwrnodau a gollir o'u herwydd ledled y ddinas).</p>	<p>Mae disgyblion sy'n cael eu gwahardd o'r ysgol yn fwy tebygol o ddod yn NEET (nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant). Bydd lleihau nifer y gwaharddiadau yn helpu i wella cyrhaeddiad disgyblion a gwella eu siawns o fod yn llwyddiannus yn y gweithle.</p>

Sut y byddwn yn gwybod?

Mesur	Perfformiad 15/16	Perfformiad presennol (C2 2016/17)	Targed ar gyfer 16/17	Newidiadau i'r Targed
Faint rydym wedi'i wneud?				
6a.Cyfanswm nifer y diwrnodau a gollwyd oherwydd gwaharddiadau cyfnod penodol o ysgolion uwchradd	2160 diwrnod	Mesur blynyddol - nid oes data ar gael eto	2052 diwrnod	Dim newidiadau i'r Targed ar hyn o bryd, caiff targedau 2017/18 eu pennu drwy Broses Cynllunio Gwasanaethau
Pa mor dda y gwnaethom ni?				

6b. Lefelau presenoldeb ysgolion cynradd EDU/016a	94.4%	94.5%	94.6%	2017/18
6c. Lefelau presenoldeb ysgolion uwchradd EDU/016b	93.1%	93.3%	93.2%	
Oes unrhyw un wedi elwa?				
6d. Nifer y disgyblion sy'n cyrraedd y lefel ddisgwyliedig DPC ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 EDU/004	81.6%	83.4%	82.1%	
6e. Canran y disgyblion sydd â hawl i brydau ysgol am ddim sy'n cyflawni Lefel 2 Cynwysedig	26.4%	34.77%	28.5%	
6f. Cyfanswm canran y disgyblion sy'n cyflawni Lefel 2 Cynwysedig	54.2%	Mesur blynyddol - nid oes data ar gael eto	55.2%	
6g. Disgyblion sy'n cyflawni Lefel 2 mewn Mathemateg	59.6%	63.73%	61.7%	
6h. Canran y disgyblion sy'n cyflawni Lefel 2 mewn Saesneg	67.7%	68.49%	68%	

Partneriaeth a Chydweithredu: Gyda phwy y mae angen i ni weithio?

Llywodraeth Cymru

EAS

Ysgolion a Phenaethiaid

Dinasyddion Casnewydd gan gynnwys rhieni a disgyblion

Gwasanaethau Cymdeithasol

Iechyd

Yr Heddlu

Tîm Troseddau Ieuencid

Gwasanaethau Ieuencid

Cymunedau yn Gyntaf

Grwpiau Gwirfoddol

Gweithgorau ardal consortia De-ddwyrain Cymru

Bwrdd Diogelu Plant De-Ddwyrain Cymru

Pa risgiau sydd angen i ni eu rheoli a'u hatal?

Risg	Gweithgarwch Lliniaru / Atal	Tebygolrwydd y Risg	Gradd Presennol y Risg
Cynyddu nifer y newydd-ddyfodiaid mewn ysgolion yng Nghasnewydd.	Parhau i adolygu anghenion gwasanaeth sy'n gysylltiedig ag anghenion Newydd-ddyfodiaid.	Uchel – mae gostyngiad mewn cyllid yn parhau i achosi pryder.	Uchel
Pwysau ar leoedd mewn ysgolion.	Mae rhaglen ehangu ysgolion cynradd yn mynd rhagddi gyda buddsoddiad cyfalaf yn cael ei gyfeirio i rannau o'r ddinas lle na ellir manteisio ar arian Adran 106.	Isel – mae gwaith yn mynd rhagddo, dim rhwystrau.	Isel
	Mae teuluoedd wedi'u rhannu rhwng ysgolion er mwyn darparu ar gyfer derbyniadau sy'n effeithio ar bresenoldeb, diffyg prydlondeb a lles.	Uchel – mae'r rhaglen ehangu ysgolion cynradd yn parhau i gynyddu nifer y lleoedd ond mae'r galw yn cynyddu drwy'r amser.	Uchel
Mae nifer y disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn cynyddu / gweithlu cymharol fach i gefnogi disgyblion a'r rhai sydd mewn perygl o gael eu gwahardd o'r ysgol.	<p>Mae'n rhaid i gynlluniau gwasanaethau a thimau ganolbwyntio ar ganlyniadau allweddol i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol / y rhai sydd mewn perygl o gael eu gwahardd o'r ysgol.</p> <p>Mae'r ALI yn cysylltu â'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg er mwyn sicrhau y caiff ysgolion eu herio a'u cefnogi er mwyn sicrhau'r ddarpariaeth gywir.</p> <p>Bydd y broses o lunio datganiadau AAA yn newid er mwyn sicrhau bod pob asiantaeth yn cael ei chynnwys yn y gwaith o gefnogi disgyblion.</p>	<p>Canolig - mae angen ailganolbwyntio gwaith, mae cyllidebau staffio mewn perygl.</p> <p>Canolig - prin yw'r cymorth sydd ar gael gan y Gwasanaeth Cyflawni Addysg.</p> <p>Canolig - aros am ragor o ganllawiau gan Lywodraeth Cymru a bydd angen amser i wneud hyn.</p>	<p>Canolig</p> <p>Canolig</p> <p>Canolig</p>

Risg	Gweithgarwch Lliniaru / Atal	Tebygolrwydd y Risg	Gradd Presennol y Risg
Wrth wraidd pob un o'r risgiau hyn mae'r pwysau ariannol parhaus.	Bydd angen i'r Maes Gwasanaeth fod yn realistig ynglŷn â'r adnoddau sydd ar gael Bydd y Maes Gwasanaeth yn parhau i fonitro'r gyllideb bresennol yn rheolaidd.	Canolig - bydd gwaith cynllunio trylwyr gan y maes gwasanaeth yn ystyried sut i neilltuo adnoddau.	Canolig
		Isel - Mae systemau ar waith.	Isel

A oes cyllideb ar gael i gyflwyno gwelliannau?

Amcan gwella	Cyllid a nodwyd i gyflwyno gwelliannau (£'000)	Sylwadau Ariannol Ychwanegol
6.1 Cynyddu nifer y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig yn Nangosydd Pwn Craidd Cyfnod Allweddol 3, nifer y disgyblion sy'n Cyflawni Dangosydd Cynwysedig Lefel 2 (yn arbennig y rhai sy'n cael Pydau Ysgol am Ddim), nifer y disgyblion sy'n cyflawni Lefel 2 TGAU Mathemateg a Saesneg.	£8,775,037	Mae'r cyllidebau sydd ar gael i gyflawni'r gwelliant hwn wedi'u nodi o nifer o feysydd; maent yn cynnwys cyfraniad y Gwasanaeth Cyflawni Addysg, sef £875,415, arian grant allanol gwerth £7,899,622 (Grant Gwella Addysg) a £4,231,500 (Grant Amddifadedd Disgyblion). Mae gostyngiad mewn cyllid gan Lywodraeth Cymru yn parhau i beri pryder o safbwynt ariannol.
6.2 Gwella Presenoldeb mewn Ysgolion Cynradd ac Uwchradd.	£305,233	Mae cyllideb y Gwasanaeth Lles Addysg ar gael i gyflawni'r gwelliant hwn.
6.3 Lleihau nifer y disgyblion sy'n cael eu gwahardd o'r ysgol.	£264,936	Mae Cyllideb Rheoli Cynhwysiant (nodwyd) ar gael i gyflawni'r gwelliant hwn. Dirprwywyd gwasanaethau AAY i ysgolion ac maent yn darparu cymorth er mwyn helpu i gyflawni'r amcan gwella hwn.

Amcan Gwella 7

Cynyddu Cyfraddau Ailgylchu

Cysylltiad â'r Cynllun Corfforaethol: Dinas sy'n Fwy Gwyrdd ac Iach

Cysylltiad â'r Nodau Llesiant: Cymru lewyrchus, Cymru gydnerth, Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Aelodau Arweiniol y Cabinet: Dirprwy Arweinydd ac Aelod y Cabinet dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thrafnidiaeth

Swyddog Arweiniol: Pennaeth Gwasanaethau Stryd a Gwasanaethau'r Ddinas

Beth yw'r Amcan Gwella?

Cynyddu cyfraddau ailgylchu a dargyfeirio gwastraff o safleoedd tirlenwi. Er mwyn sicrhau bod Casnewydd yn cyflawni amcanion Llywodraeth Cymru o ran cynyddu cyfraddau ailgylchu a'i bod yn cyrraedd y targedau Ewropeaidd ar gyfer osgoi anfon gwastraff i safleoedd tirlenwi, rhaid archwilio pob cyfle sydd ar gael i'r ddinas ailgylchu ac osgoi anfon gwastraff i safleoedd tirlenwi, a rhaid manteisio ar y cyfleoedd hynny lle bônt yn berthnasol.

Bydd Prosiect Gwyrdd yn ymdrin i raddau helaeth a'r angen i ddargyfeirio gwastraff trefol gweddilliol o safleoedd tirlenwi. Felly, bydd yr amcan hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar annog busnesau a phreswylwyr yn y ddinas i ailgylchu mwy, a fydd yn cynyddu'r potensial sydd ar hyn o bryd yn cael ei ystyried yn wastraff gweddilliol ac sy'n cael ei drin felly.

Pam rydym wedi dewis yr Amcan Gwella hwn? / Pam mae'n bwysig?

Dewiswyd yr amcan hwn am fod iddo oblygiadau mawr i gyllidebau'r cyngor ac am fod y pwnc o gryn ddiddordeb i'n trigolion. Bydd yr amcan hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar y manteision y gellir eu sicrhau drwy addysgu cwsmeriaid a chanllawiau ar sut i ailgylchu, sut i ailgylchu mwy a pham mae'n bwysig.

Derbynnir bod tua 30% o'n trigolion naill ai'n methu ag ailgylchu eu gwastraff neu eu bod ond yn ailgylchu pan fydd eu bin gwastraff gweddilliol yn llawn. Pe bai pob un o'r trigolion hyn yn perfformio yn unol â chyfartaledd Casnewydd yna amcangyfrifir y câi 2,600 o dunelli eu dargyfeirio o safleoedd tirlenwi gan arbed £208,000 y flwyddyn mewn treth/costau gwaredu.

At hynny, byddwn yn ystyried natur amrywiol y ddinas gyda'r nod o wella prosesau cyfathrebu, gan roi gwybodaeth i'r nifer fawr o grwpiau diwylliannol ac ethnig sydd gennym yn ein dinas a'u helpu i ailgylchu ac ailgylchu mwy.

Bydd yr amcan hwn yn cyfrannau at y nodau Llesiant, yn enwedig 'Cymru lewyrchus', 'Cymru gydnerth' a 'Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang'.

Beth rydym wedi'i wneud hyd yn hyn?

Mae'r cyngor yn darparu gwasanaeth ailgylchu cost isel o ansawdd uchel ac yn 2015/2016 ailgylchodd/compostiodd 57.14% o'i wastraff trefol ac anfonodd 16,892 o dunelli i safleoedd tirlenwi. Mae Casnewydd hefyd yn aelod blaenllaw o Prosiect Gwyrdd, sy'n brosiect gwerth £1bn i ddargyfeirio gwastraff o safleoedd tirlenwi, cynhyrchu ynni o wastraff a hefyd gynyddu cyfraddau ailgylchu.

Mae Casnewydd yn darparu gwasanaeth casglu gwastraff cartrefi ar ymyl y palmant cynhwysfawr gan gynnwys cardbord, gwastraff gardd, deunydd ailgylchu sych a gwastraff bwyd. Mae'r cyngor yn darparu gwasanaeth casglu gwastraff gweddilliol bob yn ail wythnos a gorffennodd y broses o gyflwyno biniau olwynion llai o faint ar ddechrau 2016/2017. Mae'r Cyngor hefyd yn cynnig cyfleuster ailgylchu gwastraff cartrefi cynhwysfawr sydd wedi gwella'r siop aildefnyddio yn dilyn ei llwyddiant yn ystod ei blwyddyn weithredu gyntaf.

Beth rydym yn mynd i'w wneud?

Beth rydym yn mynd i'w wneud eleni?	Pa wahaniaeth y bydd yn ei wneud?
<p>7.1 Gwella'r gwasanaethau ailgylchu.</p> <p>Yn ystod 2016/2017 y flwyddyn gyntaf o'r camau gweithredu gwella, mae Cyngor Dinas Casnewydd wedi bod yn gweithio i gynyddu nifer y casgliadau cardbord gan eu hychwanegu at y casgliadau ar ymyl y palmant wythnosol, ynghyd â chasglu pecynnau tetra yn ogystal â deunydd ailgylchu newydd. Mae hyn wedi galluogi trigolion i ailgylchu mwy o ddeunyddiau ac yn amlach gydag eitemau na ellir eu hailgylchu ond yn cael eu casglu bob pythefnos. Bydd y broses wedi'i chwblhau yn 2016/2017, ac yn ystod 2017/2018 bydd y cyngor yn canolbwyntio ar sicrhau bod y cynllun newydd yn gweithio fel y dylai, a mesur y cynnydd disgwylidig yn ein cyfraddau ailgylchu. Rhan bwysig o hyn fydd dadansoddi ymateb preswylwyr o ran problemau a chwynion, felly caiff y gwasanaeth ailgylchu ei fonitro yn agos.</p> <p>Bydd Cyngor Dinas Casnewydd hefyd yn ceisio gwella'r gweithgarwch ailgylchu mewn ardaloedd lle y ceir fflatiau; pan fydd data ar gael o'r peilot a gynhelir yn ystod 2016/2017, a chan gymryd y bydd yn llwyddiannus, nod y cyngor yw ymestyn yr un mesurau i ardaloedd eraill ar draws y Ddinas.</p> <p>Ar hyn o bryd mae'r cyngor hefyd yn gweithio ar baratoi Strategaeth Wastraff newydd a'i rhoi ar waith a fydd yn arwain y ffordd o ran cyflawni targedau ailgylchu gwahanol o nawr hyd at 2025. Y nod yw y gellir cymeradwyo'r drafft terfynol y flwyddyn nesaf, a dechrau gweithio ar rai o'r cynigion sy'n gysylltiedig â'r Ganolfan Ailgylchu Gwastraff Cartrefi a gwasanaethau masnach yn ystod 2017/2018.</p>	<p>Bydd yn hwyluso'r gwaith o ddatblygu strategaethau ac ymyriadau wedi'u targedu priodol.</p> <p>Galluogi Cyngor Dinas Casnewydd i werthuso gwahanol opsiynau ailgylchu.</p> <p>Codi ymwybyddiaeth o'r hierarchaeth wastraff a ffafrio opsiynau ailddefnyddio ac ailgylchu yn hytrach na dulliau eraill.</p> <p>Cynnig gwasanaeth gwell i drigolion sy'n hwyluso'r gweithgarwch ailgylchu</p>
<p>7.2 Dargyfeirio'r holl wastraff cartrefi a sbwriel masnachol a gesglir gan y cyngor drwy ddefnyddio cyfleuster troi gwastraff yn ynni Prosiect Gwyrdd yn ystod ei flwyddyn weithredu lawn gyntaf.</p>	<p>Bydd hyn yn dargyfeirio holl wastraff trefol Cyngor Dinas Casnewydd o safleoedd tirlenwi ac yn helpu'r gweithgareddau ailgylchu drwy adfer ac ailgylchu deunyddiau ar ddiwedd y broses megis metelau a lludw ar waelod llosgwyr.</p>

Sut y byddwn yn gwybod?

Mesur	Perfformiad 15/16	Perfformiad presennol (C2 2016/17)	Targed ar gyfer 16/17	Newidiadau i'r Targed
Faint rydym wedi'i wneud?				
7a Canran y gwastraff trefol a gaiff ei ailgylchu neu ei gompostio.	59.98%	64.19%	58%	
7b Cyfanswm y gwastraff a gaiff ei anfon i safleoedd tirlenwi	11.70%	7.1%	18%	

Mesur	Perfformiad 15/16	Perfformiad presennol (C2 2016/17)	Targed ar gyfer 16/17	Newidiadau i'r Targed
Pa mor dda y gwnaethom ni?				
7c Canran y gwastraff trefol a gaiff ei ailgylchu yn y Ganolfan Ailgylchu Gwastraff Cartrefi (HWRC)	61.69%	59.94%	65%	
7d Cynydd mewn lefelau cyfranogiad mewn ardaloedd â chyfraddau ailgylchu isel - cnocio ar ddrysau ac ymgyrch gyfathrebu	3%	Mesur blynyddol - nid oes data ar gael eto	2%	
Oes unrhyw un wedi elwa?				
7e Ymarfer treialu a gynigiwyd gan Gyngor Dinas Casnewydd i leihau gwastraff gweddilliol a chynyddu cyfraddau ailgylchu mewn 80 bloc o fflatiau	-	0%	2%	

Partneriaeth a Chydweithredu: Gyda phwy y mae angen i ni weithio?

Llywodraeth Cymru
Wastesavers
Cynllun Craff am Wastraff
Y trigolion a'r busnesau yng Nghasnewydd.
CLILC

Pa risgiau sydd angen i ni eu rheoli a'u hatal?

Risg	Gweithgaredd Lliniaru/Atal	Gradd y Risg Mawrth 2016	Gradd Presennol y Risg
Gallai methu â chyflawni targedau ailgylchu Llywodraeth Cymru arwain at ddirwyon sylweddol.	Mentrau i gynyddu cyfraddau ailgylchu.	Canolig	Canolig
Gallai methu â chyflawni Targedau Ewropeaidd ar gyfer Dargyfeirio Gwastraff o Safleoedd Tirlenwi arwain at ddirwyon sylweddol.	Bydd Prosiect Gwyrdd yn dileu'r risg hon.	Isel	Isel
Gallai methu â chynyddu cyfraddau ailgylchu arwain at gostau uwch.	Mentrau i gynyddu cyfraddau ailgylchu.	Canolig	Canolig

A oes cyllideb ar gael i gyflwyno gwelliannau?

Amcan gwella	Cyllid a nodwyd i gyflwyno gwelliannau (£'000)	Sylwadau Ariannol Ychwanegol
7.1 Gwella Gwasanaethau Ailgylchu.	£3,612,744 (16/17)	<p>Mae'r cyllidebau sydd ar gael i gyflawni'r gwelliant hwn wedi'u nodi o nifer o feysydd; ar gyfer 2016/17 roeddynt yn cynnwys cyllid craidd gwerth £16 ac arian grant allanol ar ffurf grant refeniw Cynaliadwyedd Amgylcheddol (ESD) gwerth £17 gan Lywodraeth Cymru. Mae gostyngiad mewn cyllid gan Lywodraeth Cymru yn parhau i beri pryder o safbwynt ariannol.</p> <p>Mae risg yn gysylltiedig â chynnal arian refeniw yn y dyfodol gan y gallai unrhyw ostyngiad mewn cyllid craidd effeithio ar allu'r Awdurdod i gyrraedd cyfradd ailgylchu a chompostio Llywodraeth Cynulliad Cymru, sef 70%, erbyn 2025.</p>
7.2 Dargyfeirio'r holl wastraff cartrefi a sbwriel masnachol a gesglir gan y cyngor drwy ddefnyddio cyfleuster troi gwastraff yn ynni Prosiect Gwyrdd yn ystod ei flwyddyn weithredu lawn gyntaf.	£3,107,781 (16/17)	Mae ffi yn daladwy i Viridor mewn perthynas â'r trefniant partneriaeth ag awdurdodau cyfagos eraill. Mae pob awdurdod yn ymrwymedig i ailgylchu a chompostio a chyflawni'r targedau heriol yn y dyfodol.

Amcan Gwella 8

Atal troseddau ac aildroseddu ymhlith pobl ifanc

Cysylltiad â'r Cynllun Corfforaethol: Dinas sy'n Fwy Diogel

Cysylltiad â'r Nodau Llesiant: Cymru iachach, Cymru sy'n fwy cyfartal, Cymru o gymunedau cydlynus

Aelodau Arweiniol y Cabinet: Aelod y Cabinet dros Addysg a Phobl Ifanc

Swyddog Arweiniol: Pennaeth Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc

Beth yw'r Amcan Gwella?

Prif nod y system cyfiawnder ieuencid, a sefydlwyd gan adran 37 Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998, yw atal troseddau gan blant a phobl ifanc.

Mae a wnelo hyn ag atal:

- ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddau;
- defnydd priodol o Warediadau y Tu Allan i'r Llys er mwyn dargyfeirio pobl ifanc oddi wrth y system cyfiawnder troseddol
- lleihau cyfradd aildroseddu profedig a
- lleihau cyfran y bobl ifanc sy'n cael eu dedfrydu i'r ddalfa

Yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid, rydym o'r farn bod atal sefyllfa rhag codi'n well na cheisio ei datrys wedyn, ac rydym o'r farn bod plant yn bobl ifanc yn y lle cyntaf ac yn droseddwy'r wedyn.

Bydd yr amcan hwn yn cyfrannu at y nodau Llesiant, yn enwedig 'Cymru iachach', 'Cymru fwy cyfartal' a 'Cymru o gymunedau cydlynus' ac yn derbyn yr egwyddorion datblygu cynaliadwy o fod yn

- **hirdymor:** mae'r Gwasanaeth Troseddau Ieuencid yn cynnig ymyriadau cyfannol i fynd i'r afael â ffactorau risg yn yr hirdymor, nid dim ond ar hyn o bryd;
- **Atal:** ein nod yw atal cymaint o bobl ifanc â phosibl rhag dod yn rhan o'r system cyfiawnder troseddol;
- **Integreiddio a chydweithio:** mae'r Gwasanaeth Troseddau Ieuencid yn wasanaeth amlasiantaethol, a chaiff llawer o'u targedau a'u swyddogaethau eu rhannu ag adrannau eraill o'r cyngor (Addysg; atal; rheoli ymddygiad gwrthgymdeithasol; tai) - drwy'r bwrdd rheoli a rhwydweithio lleol, cyfleoedd i gynllunio a chydweithio i gwrdd â'n nodau cyffredinol;
- **Cyfranogiad:** Lle bynnag y bo'n bosibl ac yn briodol anogir a chefnogir dioddefwyr troseddau pobl ifanc i gyfrannu at yr ymyriadau a gynigir; cefnogir y Gwasanaeth Troseddau Ieuencid gan grŵp o weithwyr sesiynol o'r gymuned leol er mwyn helpu i ddarparu'r gwasanaeth. blaenoriaeth i ni yn ystod y flwyddyn i ddod yw gwella ein gallu i gasglu a defnyddio gwybodaeth mwy meddal gan bobl ifanc a'u teuluoedd sy'n derbyn gwasanaethau, i lywio a gwella ein gwasanaeth yn y dyfodol.

Pam rydym wedi dewis yr Amcan Gwella hwn? / Pam mae'n bwysig?

Mae'r amcan yn amcan statudol ar gyfer pob Gwasanaeth Troseddau Ieuencid, ac mae perfformiad y Gwasanaeth mewn perthynas â'r amcan hwn yn dangos ein llwyddiant neu fethiant i gyfrannu ato. Er mwyn cyflawni'r amcanion hyn, profwyd bod gwneud defnydd effeithiol o ymyriadau atal a Gwarediadau y tu Allan i'r Llys yn elfennau pwysig o'r gwaith o greu a chynnal cymunedau mwy diogel a gwella canfyddiad pobl o ddiogelwch mewn cymunedau.

Er na all y Gwasanaeth Troseddau Ieuencid effeithio yn uniongyrchol ar nifer y bobl ifanc sy'n dod yn rhan o'r system (gan mai Heddlu Gwent sy'n rheoli'r broses), drwy ei waith atal (caiff yr agwedd cyfiawnder ieuencid ei hwyluso drwy'r gwasanaeth Atal) a gaiff ei gyflwyno ar y cyd ag amrywiaeth eang o bartneriaid ac asiantaethau, (Teuluoedd yn Gyntaf, y Tîm o amgylch y Clwstwr; Cymunedau yn Gyntaf; Gwasanaeth Ieuencid; Heddlu Gwent; B@I; PMHT...) mae'n ceisio atal cymaint o bobl ifanc â phosibl rhag dod yn rhan o'r gwasanaeth statudol. Blwyddyn ar flwyddyn gwelwyd gostyngiad yn nifer y bobl ifanc sy'n dod yn rhan o'r system yn lleol ac yn genedlaethol, sy'n awgrymu bod ymyrryd yn gynnar yn gweithio.

Yng Nghasnewydd, mae dau dîm yn defnyddio adnoddau yn uniongyrchol i gyflawni'r nod craidd - sef y Tîm o amgylch y Teulu (Tîm Atal) sy'n cynnig ymyriadau cynnar gwirfoddol unigol penodol ar ffurf Datrysiaidau Cymunedol, yn ogystal â chymorth gwirfoddol mwy cyffredinol i bobl ifanc a theuluoedd mewn angen, a'r Gwasanaeth Troseddau leuenctid, sy'n hwyluso gwarediadau y tu allan i'r llys a'r nifer fawr o ymyriadau statudol a orchmynnir gan y llys. Gall y ddau dîm ofyn am amrywiaeth o adnoddau arbenigol/ymyriadau/ymwneud gan asiantaethau i gynorthwyo eu gwaith gyda phobl ifanc, teuluoedd, dioddefwyr a chymunedau. Mae natur amlasiantaeth, gydweithredol y gwasanaeth yn darparu dull cydlynol o ymdrin â phroblemau ac mae'n cynorthwyo i fynd i'r afael ag anghenion cyfannol y defnyddwyr gwasanaeth er mwyn helpu i ymdrin ag achosion craidd troseddu.

Beth rydym wedi'i wneud hyd yn hyn?

Yn hanesyddol, fel y cadarnhawyd yn yr archwiliad gan Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi yn 2014, nid yw perfformiad y Gwasanaeth Troseddau leuenctid yn cael ei ystyried yn dda.

Ym mis Chwefror 2016 roedd y Gwasanaeth Troseddau leuenctid yn destun ail-archwiliad gan Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi. Pan gyhoeddwyd hwn ym mis Mehefin 2016, cydnabuwyd bod cynnydd sylweddol wedi'i wneud ers yr archwiliad blaenorol. Dywedodd y Bwrdd Cyfiawnder leuenctid mai ni, o bob Gwasanaeth Troseddau leuenctid yng Nghymru, oedd wedi gwella fwyaf. Cydnabuwyd y bu gwelliannau amlwg o ran rôl ac effeithiolrwydd y bwrdd rheoli, y tîm rheoli a'r gwaith cyffredinol - er bod meysydd gwaith o hyd y mae angen mynd i'r afael â hwy.

Mae Gwasanaeth Troseddau leuenctid Casnewydd wedi newid yn sylweddol o ran ei berfformiad ers yr archwiliad diwethaf. Roedd y Gwasanaeth Troseddau leuenctid yn gryfach o ran asesu a chyflawni ymyriadau o ansawdd da. Roedd gan Fwrdd Rheoli'r Gwasanaeth Troseddau leuenctid amcanion clir ac roedd yn llwyddiannus o ran sicrhau bod gan blant a phobl ifanc fynediad i ystod o wasanaethau sydd wedi'u cynllunio i'w hatal rhag troseddu. Roedd peth gwaith i'w wneud o hyd o ran gwella'r gwaith cynllunio o ran rheoli plant a phobl ifanc sy'n agored i niwed, a darparu gwasanaeth addysg, hyfforddiant a chyflogaeth gynhwysfawr. Roedd y Gwasanaeth Troseddau leuenctid yn ymwybodol bod angen iddynt wella ac roedd yn mynd i'r afael a'r problemau mewn ffordd adeiladol.

Adroddiad archwiliad Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi Mehefin 2016

Datblygwyd cynllun gwella-cynllun busnes newydddd ôl-archwiliad yn dilyn yr ail-archwiliad i fynd i'r afael a'r meysydd yr oedd angen eu datblygu a'u gwella. Goruchwyliwyd hyn gan y Bwrdd Cyfiawnder leuenctid a bwrdd rheoli'r Gwasanaeth Troseddau leuenctid.

Yn ogystal â gwaith caled a diwydrwydd diamwys y tîm staff, mae sefydlu system monitro ac adrodd ar berfformiad misol mewn 'amser real' wedi cyfrannu at y llwyddiant ac yn parhau i hwyluso'r gwaith o ganfod problemau sydd angen mynd i'r afael â hwy yn gynnar.

Yn erbyn perfformiad y flwyddyn flaenorol, roedd gwelliannau o ran perfformiad yn cynnwys y canlynol:

- Gostyngiad sylweddol o 42% yn nifer yr unigolion sy'n dod yn rhan o'r system cyfiawnder troseddol am y tro cyntaf.
- 91% o warediadau cyfiawnder adferol wedi'u cwblhau yn llwyddiannus - cynnydd o 4%
- 78.4% o achosion biwro wedi'u cwblhau yn llwyddiannus
- 57.7% o orchmynion llys wedi'u cwblhau yn llwyddiannus neu eu diddymu er mwyn gwneud cynnydd da (cynnydd o ychydig yn brin o 30% yn y flwyddyn flaenorol).
- Cynnydd yng nghyfarledd yr oriau o bresenoldeb ETE rhwng dechrau a diwedd y gorchymyn.
- Gostyngiad sylweddol o 41% yn nifer y dedfrydau o garchar.

Er mwyn cydnabod y gwelliannau a wnaed dros y deuddeg mis diwethaf, mae'r Gwasanaeth Troseddau leuenctid wedi symud o safle 'angen gwneud gwaith gwella sylweddol' (coch) i 'rhai meysydd sy'n achosi pryder' (ambr). Mae'r meysydd hyn yn ymwneud yn bennaf â'n perfformiad mewn perthynas ag aildroseddu a pherfformiad anghyson mewn perthynas â chwrrd a thargedau perfformiad yn ymwneud â chamddefnyddio sylweddau. Mae'r ddau ffactor hyn yn effeithio'n sylweddol ar y cynllun busnes.

O ganlyniad i doriadau mewn cyllid (Bwrdd Cyfiawnder leuenctid: Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddau: Gwasanaeth Prawf) mae'r Gwasanaeth Troseddau leuenctid wedi colli nifer o swyddi eleni (2 ymddiswyddiad

gwirfoddol, l o ganlyniad i rhywun yn gadael). Ni fydd swyddi newydd yn lle'r rhai hyn er mwyn cynllunio cyllideb gytbwys ar gyfer y flwyddyn nesaf. Mae'r gwasanaeth wedi'i ailstrwythuro yn dilyn adolygu a diweddarau rhai disgrifiadau swydd, rolau a chyfrifoldebau er mwyn cefnogi defnydd effeithiol ac effeithlon o lai fyth o adnoddau. Mae hyn ynghyd â strwythur rheoli newydd; adleoli'r gwasanaeth ym mis Tachwedd 2016, yn ogystal â chyflwyno proses asesu genedlaethol newydd ym mis Gorffennaf 2016, wedi golygu bod rhan gyntaf y flwyddyn wedi gweld newid sylweddol, sydd wedi achosi peth pryder yn ogystal ag ymdeimlad o ansefydlogrwydd yn y gwasanaeth.

Er yn cydnabod yr her wirioneddol a wynebir oherwydd y newidiadau sylweddol, croesewir y cyfle i ddechrau o'r newydd, mewn swyddfeydd newydd gyda rolau a chyfrifoldebau wedi'u haildiffinio a thîm rheoli newydd. Bwriedir ailfodelu'r cynllun gweithredu/cynllun gwella busnes ôl-archwiliad yn ddogfen fwy thematig, ac mae'r bwrdd rheoli am fabwysiadu dull thematig ar gyfer ei rôl llywodraethu a chraffu a gaiff ei lywio gan broses monitro perfformiad sydd wedi'i haildiffinio a'i symleiddio, a thrwy hynny, fabwysiadu dull cefnogol ond cydweithredol gadarn ar gyfer gwneud gwelliannau i'r gwasanaeth a fydd yn cefnogi'r gwaith o gyflenwi gwasanaeth mwy effeithiol i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd, a dioddefwyr pobl ifanc sy'n troseddu.

Mae manylion y meysydd ffocws ar gyfer y cyfnod nesaf yng nghynllun busnes y Gwasanaeth Troseddau leuenctid. Dim ond nifer fach o'r camau gweithredu sydd i'w cyflawni y cyfeirir atynt isod.

Beth rydym yn mynd i'w wneud?

Beth rydym yn mynd i'w wneud eleni?	Pa wahaniaeth y bydd yn ei wneud?
8.1 Lleihau nifer y rhai sy'n dod yn rhan o'r system cyfiawnder troseddol am y tro cyntaf.	Dargyfeirio mwy o bobl ifanc oddi wrth droseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.
8.2 Lleihau'r defnydd o gadw pobl ifanc yn y ddalfa.	Helpu mwy o bobl ifanc i ymatal rhag troseddu tra eu bod yn destun dedfrydau cymunedol.
8.3 Mynediad at Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth.	Mae gan blant a phobl ifanc fwy o fynediad at addysg, hyfforddiant a chyflogaeth llawn amser, sy'n addas i ddiwallu eu hanghenion.
8.4 Yn gallu cael asesiad a thriniaeth amserol mewn perthynas â chamddefnyddio sylweddau.	Cydnabyddir arwyddion camddefnyddio sylweddau sy'n effeithio ar ymddygiad a lles cyn gynted â phosibl.

Sut y byddwn yn gwybod?

Mesur	Perfformiad 15/16	Perfformiad presennol (C2 2016/17)	Targed ar gyfer 16/17	Newidiadau i'r Targed
Faint rydym wedi'i wneud?				
8A. Nifer y bobl ifanc a atgyfeiriwyd ar gyfer Datrysiad Cymunedol (gwybodaeth leol fisol)	94 (Ch3 15/16) 37.30%	47.3%	30% o gyfanswm y llwyth achosion (Ebrill 16- Mawrth 17)	40% Uwch (gwell) na'r targed ar hyn o bryd
8B. Canran y bobl ifanc a atgyfeiriwyd at Swyddfa Casnewydd ar gyfer Gwarediadau y Tu Allan i'r Llys. (gwybodaeth leol misol)	47 (Ch3 15/16) 18.65%	23.7%	15% o gyfanswm y llwyth achosion (Ebrill 16 – Mawrth 17)	20% Uwch (gwell) na'r targed ar hyn o bryd

Mesur	Perfformiad 15/16	Perfformiad presennol (C2 2016/17)	Targed ar gyfer 16/17	Newidiadau i'r Targed
Pa mor dda y gwnaethom ni?				
8C. Nifer y rhai sy'n dod y rhan o'r system cyfiawnder ieuencid am y tro cyntaf (gwybodaeth adrodd leol fisol yn seiliedig ar ddata byw)	44 (2015/16)	19	50 (Ebrill 16 – Mawrth 17)	
8D. Nifer y bobl ifanc a gafodd eu dedfrydu i'r ddalfa (y nifer wirioneddol o berfformiad misol lleol)	14 (2015/16)	4	15 (Ebrill 16 – Mawrth 17)	lleihad o 10% ar ffigwr 2015/16 - uwch (gwell) na'r targed
8E Canran y plant a phobl ifanc yn y System Cyfiawnder Ieuencid, sydd ag anghenion camddefnyddio sylweddau a nodwyd, sy'n cael mynediad at asesiad arbenigol priodol. (gwybodaeth leol fisol)	78% (2015/16)	71.4%	80% (Ebrill 16 – Mawrth 17)	Er bod perfformiad islaw'r targed, rydym yn mynd i'r afael â'r maes ar hyn o bryd.
8F. Nifer yr oriau a dreuliwyd mewn addysg, hyfforddiant a chyflogaeth ar ddiwedd gorchymyn statudol (gwybodaeth leol fisol)	15.5 awr (2015/16)	22 awr	Oedran ysgol (o dan 16) 17.5 awr yr wythnos	
Oes unrhyw un wedi elwa?				
8G. Canran y bobl ifanc sy'n cael gwarediadau y Tu Allan i'r Llys sy'n aildroseddu o fewn y 12 mis nesaf. (gwybodaeth leol chwarterol)	22.2% (2015/16)	25%	30% (Ebrill 16 – Mawrth 17)	
8H. Canran y bobl ifanc sy'n cael gorchymynion statudol sy'n aildroseddu o fewn y 12 mis nesaf (gwybodaeth fewnol chwarterol)	25.1% (2015/16)	40.9%	45% (Ebrill 2016/17)	

Partneriaeth a Chydweithredu: Gyda phwy y mae angen i ni weithio?

Heddlu Gwent

Ymddiriedolaeth Prawf Cymru Gyfan

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Barnardo's B@I

Gyrfa Cymru

Positive Futures

Gwasanaeth Ieuencid

Pa risgiau sydd angen i ni eu rheoli a'u hatal?

Risg	Gweithgarwch Lliniaru / Atal	Gradd y Risg Mawrth 2016	Gradd Presennol y Risg
Gallai gostyngiad mewn arian grant/arian a geir gan bartneriaid effeithio ar lefelau staffio.	<ul style="list-style-type: none"> Cynyddu nifer y gwirfoddolwyr a gweithwyr sesiynol i ddarparu gwasanaeth mentora i bobl ifanc ac ymchwilio i ffrydiau ariannu amgen. Drwy gynyddu gweithgarwch porthgadw a sicrhau ansawdd, sicrhau bod staff yn defnyddio amser ac adnoddau yn effeithiol a, lle y bo'n bosibl, mewn partneriaeth ag eraill er mwyn lleihau costau a/neu sicrhau'r arbedion maint mwyaf posibl. 	Uchel	Uchel
Cynydd mewn lefelau aildroseddu ymhlith pobl ifanc ag anghenion cymhleth iawn.	<ul style="list-style-type: none"> Gweithio gyda phartneriaid a'r Bwrdd Cyfiawnder leuonctid er mwyn nodi'r hyn sy'n gweithio o ran atal y rhai ag anghenion cymhleth rhag ail-droseddu. Drwy gynyddu gweithgarwch sicrhau ansawdd a gwneud defnydd gwell o wybodaeth am berfformiad, targedu gweithgarwch atal tuag at y bobl ifanc hynny sy'n wynebu'r risg fwyaf a sicrhau bod y rhai sy'n rhan o'r system yn cael yr ymyriadau mwy cadarn sy'n cael yr effaith fwyaf. Sicrhau y gwneir defnydd trylwyr ac effeithiol o arbenigedd a sgiliau partneriaid – gwaith amlasiantaeth effeithiol. Sicrhau y caiff y wybodaeth a gasglwyd ac a choladwyd drwy adoygiadau (wedi'u cadeirio) ei defnyddio i wella'r broses o ddarparu gwasanaeth. 	Uchel	Uchel

A oes cyllideb ar gyfer cyflwyno gwelliannau? Nifer

Amcan Gwella	Cyllid a nodwyd i gyflwyno gwelliannau (£'000)	Sylwadau Ariannol Ychwanegol
Dim arian ychwanegol - rhagor o doriadau yn debygol.		